



Gwrth-Seioniaeth, Gwrth-Semitiaeth, a'r Drafodaeth Gyfoes ar y Berthynas
Rhyngddynt.

Celyn Mair Thomas

1600151

BA Astudiaethau Crefyddol

Traethawd Hir: HPRS6012C

40 Credyd

Tystiaf mai fy ngwaith fy hun yw'r traethawd/prosiect hwn; cydnabyddir yn
llawn yn y cyfeiriadau unrhyw ddefnydd a wneir o waith pobl eraill.

Cyfrif Geiriau: 9,974

C M Thomas

Crynodeb

Ffocws allweddol fy nhraethawd hir yw'r berthynas rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, yn ogystal ag archwilio gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur fel astudiaeth achos. Mae gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth wedi bod yn ideolegau amlwg ym Mhrydain ac Ewrop ers canrifoedd, a bwysleisiwyd yn ystod erchyllterau'r Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, yn ddiweddarach mae'r ddwy ideoleg hyn wedi dod i ddiddordeb eto ym Mhrydain, gydag aelodau o'r Blaid Lafur, yn ogystal â'r arweinydd y Blaid, Jeremy Corbyn, yn cael eu cyhuddo o ddangos agweddau wrth-Seionaidd a gwrth-Semitaidd.

Yn gyntaf, mae'r astudiaeth hon yn datblygu ein dealltwriaeth o wrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, a'r hyn y maent yn ei olygu mewn gwirionedd. Mae'r cysyniad o wrth-Seioniaeth yn syml, ond mae gwrth-Semitiaeth yn llawer mwy cymhleth i'w ddeall. Mae'r traethawd hir yma yn archwilio tarddiad gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, yn ogystal ag edrych ar y dehongliadau gwahanol o'r diffiniad o wrth-Semitiaeth. Ymhellach, trwy ddefnyddio ymchwil ysgolheigaidd, mae'n amlwg bod perthynas gymhleth rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. Mae ymchwil yn dangos y gallai gwrth-Semitiaeth cael ei ysgogi gan gwrth-Seioniaeth, yn ogystal â'r ddadl mai gwrth-Seioniaeth yw'r wrth-Semitiaeth newydd. Yn olaf, mae'r traethawd hir yma yn ymchwilio'r honiadau, ydy'r Blaid Lafur yn gwrth-Seionaidd a wrth-Semitaidd? Mae'n amlwg bod rhai Aelodau Seneddol Llafur yn wrth-Semitaidd megis Ken Livingstone, a bod eraill yn wrth-Seionaidd megis Jeremy Corbyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig, nad yw pob Aelod Seneddol Llafur yn wrth-Seionaidd nac yn wrth-Semitaidd. Mae'n cael ei drafod yn y traethawd hir yma, bod Aelodau Seneddol Llafur Iddewig wedi wynebu ymosodiadau gwrth-Semitaidd a gwrth-Seionaidd, sydd yn amlwg yn broblem fawr yn ein gwleidyddiaeth yn ogystal ag yn ein cymdeithas heddiw.

Cynnwys

Crynodeb.....	1
Pennod 1: Cyflwyniad.....	4
Pennod 2: Tarddiad a Natur Seioniaeth, Gwrth-Seioniaeth a Gwrth-Semitiaeth...	5-14
2.1 Cyflwyniad y Bennod.....	5
2.2 Gwreiddiau a Natur Seioniaeth Grefyddol.....	5-6
2.2.1 Sylfaen Seioniaeth yn deillio o'r Beibl Hebraeg.....	6-7
2.2.2 Arwyddocâd y Tir mewn Bywyd Dyddiol Iddewig.....	7-8
2.3 Gwreiddiau a Natur Seioniaeth Wleidyddol.....	8-9
2.4 Tarddiad a Datblygiad Gwrth-Seioniaeth.....	10
2.4.1 Gwrth-Seioniaeth Crefyddol.....	10-11
2.4.2 Gwrth-Seioniaeth Gwleidyddol.....	11
2.5 Beth yw Gwrth-Semitiaeth?.....	11-12
2.5.1 Tarddiad a Datblygiad Gwrth-Semitiaeth.....	13-14
2.6 Casgliad y Bennod.....	14
Pennod 3: Y Cysylltiadau rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth.....	15-20
3.1 Cyflwyniad y Bennod.....	15
3.2 Y Cysylltiadau rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth.....	15
3.2.1 Mae gwrth-Seioniaeth yn cael ei ysgogi gan wrth-Semitiaeth.....	15-16
3.2.2 Gwrth-Seioniaeth yw'r wrth-Semitiaeth Newydd.....	16-17
3.3 Nid oes unrhyw Gysylltiad rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth.....	17-19
3.3.1 Trafod Diffiniadau o wrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth.....	19
3.4 Casgliad y Bennod.....	19-20
Pennod 4: Astudiaeth Achos: Y Blaid Lafur.....	21-28

4.1 Cyflwyniad y Bennod.....	21
4.2 Hanes gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur.....	21-22
4.3 Hanes gwrth-Seioniaeth o fewn y Blaid Lafur.....	22-23
4.4 Gwrth-Semitiaeth a gwrth-Seioniaeth o fewn y Blaid Lafur.....	23-24
4.4.1 Ken Livingstone.....	24-25
4.4.2 Jeremy Corbyn.....	25-27
4.5 Ymosodiadau gwrth-Semitaidd a gwrth-Seionaidd ar Aelodau Seneddol Lafur.....	27
4.6 Nad yw'r Blaid Lafur yn wrth-Semitaidd nac yn wrth-Seionaidd.....	28
4.7 Casgliad y Bennod.....	28
Pennod 5: Casgliad.....	29-30
Llyfryddiaeth.....	31-33

Pennod 1

Cyflwyniad

Nod y traethawd hir yma yw archwilio'r berthynas bresennol rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. Trwy gydol y gwaith yma, defnyddiwyd llawer o wahanol ffynonellau, o ffynonellau gwreiddiol i ffynonellau eilaidd. Bydd y traethawd hir yma yn ceisio diffinio beth mae gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth yn ei olygu, trwy edrych ar y gwahanol dehongliadau o beth yw gwrth-Semitiaeth. Mae'r ddadl barhaus ynghylch y diffiniad o wrth-Semitiaeth yn hynod gymhleth ac nad oes un cydsyniad unigol. Wedi hynny, mae'r traethawd hir yma yn archwilio a oes perthynas neu gysylltiad rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. Yn olaf, byddaf yn defnyddio astudiaeth achos megis y Blaid Lafur ac asesu a oes unrhyw dystiolaeth bod y Blaid Lafur yn wrth-Seionaidd neu yn wrth-Semitaidd.

Wrth i'r traethawd yma canolbwyntio ar gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, mae'n bwysig nodi bod y pwnc yma yn hollbwysig ac arwyddocaol. Mae gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth wedi cael hanes hir o fod yn broblemau cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol dros y canrifoedd. Mae Seioniaeth wedi wynebu gwrthwynebiad erioed ers iddo gael ei gydnabod gyntaf yn y Beibl Hebraeg, ac ers creu'r wladwriaeth Israel, mae'n parhau i wynebu gwrthwynebiad a gelyniaeth gan wrth-Seionyddion. Ymhellach, mae gwrth-Semitiaeth wedi bod yn broblem ers y canol oesoedd, o waith Martin Luther hyd at yr Ail Ryfel Byd, a hyd yn oed heddiw mae'n dal i fod yn broblem barhaus.

Mae'n bwrpasol tynnu sylw at y ffaith, hefyd, bod gwrth-Semitiaeth wedi ail-gynnal eto yn y wlad yma oherwydd cyhuddiadau trafferthion gyda'r Blaid Lafur. Cyhuddwyd y Blaid ar sawl achlysur eu bod yn wrth-Semitaidd yn amlwg, ond hefyd yn wrth-Seionaidd mewn nifer o achosion. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar ein llywodraeth, ond mae hefyd yn dominyddu ein penawdau newyddion yn ddyddiol, gan awgrymu ei fod yn broblem fawr y mae angen mynd i'r afael.

Pennod 2

Tarddiad a Natur Seioniaeth, Gwrth-Seioniaeth a Gwrth-Semitiaeth

2.1 Cyflwyniad y Bennod

I bwrpas y traethawd hir yma, mae'n bwysig i allu diffinio a deall ystyr y termau Seioniaeth, gwrth-Seioniaeth a hefyd gwrth-Semitiaeth. Yn benodol, mae'n bwysig gallu gwahaniaethu rhwng y diffiniadau a deall beth mae'r termau hyn yn golygu'n unigol, oherwydd ei fod yn bwnc mor sensitif sydd yn parhau i fod yn berthnasol i'n cymdeithas yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n hanfodol i archwilio beth yw tarddiad Seioniaeth, gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth er mwyn gallu wynebu'r mater cymhleth ynghylch y berthynas rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. Yn y bennod yma, dyna'r hyn yr wyf yn bwriadu ei wneud.

2.2 Gwreiddiau a Natur Seioniaeth Grefyddol

Mae Seioniaeth yn fudiad o fewn Iddewiaeth sydd yn credu bod gan yr Iddewon yr hawl i ddychwelyd a rheoli'r wlad a elwir yn Israel. Mae'n fudiad sydd yn credu mewn bodolaeth gwladwriaeth ar gyfer y bobl Iddewig sydd hefyd yn famwlad hynafol iddynt; mae heddiw yn deillio o un o'r ideolegau mwyaf dadleuol yn y byd. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd nifer o Iddewon ffurfio math hollol wahanol o ymateb i'r heriau a godir gan foderniaeth. Gwrthododd yr Iddewon hyn y syniad y gallent gymhwyso i gymdeithas Ewrop, a chredent y dylai'r Iddewon ddychwelyd i wlad Israel, yna a elwir yn Balesteina, i ailsefydlu gwladwriaeth Iddewig. Y mudiad a gododd i gefnogi'r dull newydd hwn oedd Seioniaeth.¹ Yn ôl Gareth Lloyd Jones, 'Gorchwyl penodol Israel oedd ffurfio cymdeithas gyfiawn a dyngarol, cymdeithas heb dlodi na rhyfel na thwyll, a thrwy ei hesiampl rhoi arweiniad i'r cenhedloedd o'i chwmpas'.² Dyma'r ideoleg y byddai Israel yn dod yn gartref a maes diogel yr Iddewon, cymdeithas a fyddai'n rhannu'r un credoau, gwerthoedd ac arferion.

Mae'r dystiolaeth am yr awydd i ddychwelyd i Seion (symbol am Jerwsalem, ac, yn ehangach na hynny, am y tir cyfan) yn helaeth yn hanes yr Iddewon ac Iddewiaeth. Defnyddiwyd y term 'Seioniaeth' am y tro cyntaf tuag at ddiwedd y ganrif ddiwethaf, ac fe'i defnyddiwyd gydag amrywiaeth o ystyron: Seioniaeth Lafur, Seioniaeth grefyddol, Seioniaeth ddiwylliannol, Seioniaeth wleidyddol, Seioniaeth ddyneiddiol, Seioniaeth o'r dde, Seioniaeth y chwith,

¹ Robert Eisen, *The Peace and Violence of Judaism: From the Bible to Modern Zionism* (Rhydychen: Oxford University Press, 2011), t.142.

² Gareth Lloyd Jones, *Lleisiau o'r Llundw* (Dinbych: Gwasg Gee, 1994), t.73.

Seioniaeth y gwasgariad, a Seioniaeth Gwladwriaeth Israel, ac yn y blaen.³ Fodd bynnag, dau brif gategori o Seioniaeth sydd angen eu trafod yn yr astudiaeth hon yw Seioniaeth Grefyddol a Seioniaeth Wleidyddol.

2.2.1 Sylfaen Seioniaeth yn deillio o'r Beibl Hebraeg

Er bod sawl math o Seioniaeth, mae'n bwysig i ganolbwyntio ar Seioniaeth Grefyddol yn uniongyrchol. Mae Seioniaeth Grefyddol yn hollbwysig i'r ddadl am Seion. Mae Seionyddion Crefyddol yn credu bod *Eretz Yisrael* (Tir Israel) wedi ei addo gan Dduw ac mae gan yr Iddewon yr hawl i'r tir yn barhaol ac yn annymunol. I genedlaethau o Iddewon gwasgaredig, mae Jerwsalem wedi bod yn symbol o'r Tir Sanctaidd a'u gobaith yw cael dychwelyd yno. Yn ychwanegol, mae Seioniaeth grefyddol yn gysylltiedig â Seion; cysyniad sydd yn deillio o'r Ysgrythurau Iddewig. Mae'r Ysgrythurau Hebraeg yn sôn am Seion dim llai na 192 o weithiau, sydd yn wir yn dangos pwysigrwydd ac arwyddocâd Seion yn y grefydd Iddewig.⁴ Mae'n amlwg bod sylfaen y pwysigrwydd ac arwyddocâd y tir wedi'i wreiddio yn y Beibl Iddewig a hyd yn oed heddiw mae'n cael ei adlewyrchu ym mywydau Iddewig o ddydd i ddydd.

Cyfeirir at Seion yn y Beibl Iddewig fel tir cysegredig, sanctaidd a bendigedig. Mae'r syniad bod Jerwsalem yn perthyn i'r Iddewon ac mai Israel yw eu cartref cywir yn deillio o'r Torah, sef y testun sylfaenol ac awdurdodol yn y grefydd Iddewig. Yn ôl yr ysgrythurau, Seion yw, 'preswylfa sanctaidd y Goruchaf. Y mae Duw yn ei chanol, nid ysgogir hi...' (Salm 46.4-5). Nid oedd Seion yn ddinas gyffredin; yn wir daeth yn symbol y tu hwnt ei hun, ac fe gyfrannodd at Iddewiaeth yn fel ffydd wedi'i ymgorffori yn y ddelwedd a'r gobaith am y Mynydd Sanctaidd.

Mae'r pwysigrwydd a pherthnasedd y tir yn cael ei adlewyrchu yn y cyfamod rhwng Duw ac Abraham. Yn llyfr Genesis mae'n dangos sut mae'r tir wedi cael i addo i Abraham, 'sefydlaf fy nghyfamod yn gyfamod tragwyddol â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl tros eu cenedlaethau, i fod yn Dduw i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl. A rhoddaf y wlad yr wyt yn crwydro ynddi, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragwyddol i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl, a byddaf yn Dduw iddynt', (Genesis 17:7-8). Yna rhoddwyd addewid y tir i fab Abraham, Isaac (Genesis 28:4) ac yn ddiweddarach i Jacob, ŵyr Abraham (Genesis 28:13). Er bod y cyfamod rhwng Duw ac Abraham, mae'r Torah yn mynnu y byddai disgynyddion y patriarch

³ Michael Prior, *Zionism and the State of Israel Prior* (Llundain: Routledge, 1999), t.51.

⁴ Prior, *Zionism and the State of Israel*, t.53.

erioed yn byw yn Eretz Yisrael am byth. Mae'r cyfamod yn cysylltu Duw a phobl Duw gyda'i gilydd mewn perthynas barhaol â'r tir.

Agwedd arall o bwysigrwydd y tir i Iddewiaeth yw bod gan yr Arglwydd ei hun yr awdurdod a'r oruchafiaeth i roi'r tir i'r genedl Iddewig. Yn y traddodiadau Beiblaidd Hebraeg, adferiad i'r tir oedd rhagorffaint yr Arglwydd yn unig (e.e. Jeremeia 28.3-6; 29.10) gan mai dim ond ef a allai beirniadu ar deilyngdod y bobl i ddychwelyd i'r tir.⁵ Yn ôl y llyfr Jeremeia, 'Codwch, dringwn i Seion at yr Arglwydd ein Duw', (Jeremeia 31:6). Yn y dyfyniad hwn, mae'n amlwg na ddylai'r genedl Iddewig gydymffurfio â'r tir yn unig, ond hefyd Duw ei hun, gan fyfyrion arno fel y Tad yn ogystal â'r Crëwr. Mae nifer o ysgolheigion yn credu bod y cyfamod yma yn ffurfio fframwaith ysgrythurol hanfodol i ddisgrifio'r berthynas sydd yn datblygu rhwng Duw ac Israel.⁶ Yn ôl Gerhard Von Rad, cyfeirir at berchnogaeth Duw o'r tir fel y genhedlaeth ddiwylliannol. Dyma'r gred fod y tir yn eiddo i'r Arglwydd yn wahanol i'r tir a addawyd. Mae'r ymadrodd mwyaf clir o hyn yn Lefiticus 25:23, 'Ni ellir gwerthu tir yn barhaol, oherwydd eiddo fi yw'r tir...'.⁷

2.2.2 Arwyddocâd y Tir mewn Bywyd Dyddiol Iddewig

Mae'r gweddïau a bendithion dyddiol yr Iddewon ar ôl prydau bwyd yn llawn cyfeiriadau at adfer a dychwelyd i Seion. Mae'r gwasanaeth ar gyfer Dydd y Cymod, y diwrnod mwyaf cysegredig yn y calendr Iddewig, yn cloi gyda'r geiriau: 'Y flwyddyn nesaf yn Jerwsalem'. Ar ddiwedd eu diwrnod mae Iddewon dros y cenedlaethau yn datgan eu gobaith am gael 'dychwelyd' i'w mamwlad, nid ar ryw ddyddiad amhenodol yn y dyfodol anghysbell, ond 'y flwyddyn nesaf'. Gwneir datganiad tebyg ar ddiwedd gŵyl y Pasg.⁸ Yn amlwg, mae hyn yn dangos pa mor bwysig ac arwyddocaol yw ideoleg Seion a'r gobaith i ddychwelyd i Israel, gan ei fod yn rhan o greddau'r Iddewon yn ogystal ag arferion yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae'r addewid o dir i Abraham a'i ddisgynyddion yn cael ei bwysleisio nid yn unig yn y Beibl Hebraeg, ond gan weddïau dyddiol Iddewig hefyd; yn enwedig trwy'r llyfr gweddi a elwir y *Siddur*. Yn ôl y *Mishnah* (*Mishnah Berakoth* 4.5), dywedir yn ystod y gweddïau, y dylai

⁵ Prior, *Zionism and the State of Israel*, t.53.

⁶ James Brashler, 'God's Covenant with Abraham', (Presbyterian Outlook; Richmond, Medi 4, 2017) Cyfrol. 199, Rhif. 12, t.41, <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/1939740755/fulltextPDF/FF0390A2AC8A4855PQ/1?accountid=130472>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

⁷ Christopher J. H. Wright, *God's People in God's Land: Family, Land, and Property in the Old Testament* (UDA: William B Eerdmans Publishing Co, 2014), t.5.

⁸ Prior, *Zionism and the State of Israel*, t.51.

Iddewon eu hwynebu Jerwsalem sydd eto'n pwysleisio ac yn nodi pwysigrwydd a gwerth tir Israel i'r bobl Iddewig. Mae'n dangos bod pwysigrwydd y tir yn cael ei gynrychioli o fewn bywyd beunyddiol Iddewig, yn ogystal ag o fewn y Beibl Hebraeg. Yn ychwanegol, defnyddir y cyfeiriad at y tir hyd yn oed yn ystod cerrig milltir bwysig megis priodasau ac angladdau, mae cyfeiriad at dir Israel. Er enghraifft, mae un o'r bendithion priodas yn cynnwys, 'Ein Duw, rhowch glywed yn fuan yn ninasoedd Jwda a strydoedd Jerwsalem, sain gorfoledd a sain llawenydd, llais y priodfab a llais y briodferch'.⁹

2.3 Gwreiddiau a Natur Seioniaeth Wleidyddol

Mae Seioniaeth Wleidyddol yn ymdrechu am yr un cysyniad; am i'r Iddewon i ddychwelyd i wlad Sanctaidd Israel, ond ar sail gwbl wahanol. Elfen bwysig o fewn Seioniaeth Wleidyddol yn hytrach na chael cenedl yn seiliedig ar y grefydd, roedd yn bwysig i Seionyddion Gwleidyddol ymdrechu i gael cenedl oedd yn siarad yr un iaith i fyw mewn un wlad. Mae rhai yn ymdrechu i ddod yn Iddewon yn genedlaethol, hynny yw, i greu gwladwriaeth lle gellid siarad iaith gyffredin a byw diwylliant Iddewig. Mae Seionyddion Gwleidyddol yn gweld eu Hiddewiaeth fel hunaniaeth ddiwylliannol yn hytrach nag un crefyddol, ac felly mae iaith yn chwarae rhan enfawr yn hyn o beth. Yn ôl Alan Dowty, 'The Zionist revolution was to affirm a secular self-identity as a nation along with, or even in place of, traditional religious and communal self-identity'.¹⁰

Sylfaenydd y symudiad Seioniaeth Wleidyddol oedd Theodor Herzl. Yr oedd Theodor Herzl yn unigolyn arwyddocaol o ran datblygiad Seioniaeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bumptheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Yn ôl David Vital, roedd Herzl y, 'hero of the Zionist movement – its only hero'.¹¹ Mae'n bwysig archwilio sut y bu i'w syniadau a'i freuddwydion effeithio ar y mudiad Seionaid a sut mae wedi datblygu ers hynny. Mae'n bwysig cydnabod yr oedd prif nod Herzl oedd sefydlu wladwriaeth Iddewig.

Yn ôl Herzl, yr oedd Iddewon yn cael eu hystyried fel 'pobl' dramor ac yn cael eu beirniadu am ddioddef o argyfwng moesol. Felly, ei ateb modern i'r Cwestiwn Iddewig oedd y dylai'r Iddewon ddod o hyd i'r ateb drostynt eu hunain, i geisio gwella eu hunain, gwella cymdeithas

⁹ Prior, *Zionism and the State of Israel*, tt.58-59.

¹⁰ Alan Dowty, *The Jewish State: A Century Later, Updated With a New Preface* (California: University of California Press; Argraffiad cyntaf, 2001), t.34.

¹¹ David Vital, *The Origins of Zionism* (Rhydychen: Clarendon Press, 1990), t.233.

Ewropeaidd trwy integreiddio fel cenedl yn hytrach nag fel unigolion.¹² Fodd bynnag, yr oedd prawf Alfred Dreyfus wedi chwalu syniadau Herzl. Yn 1894, cafodd Alfred Dreyfus, yr unig Iddew ar Staff Cyffredinol y Fyddin Ffrengig, ei gollfarnu o fradis. Gwrthodwyd y dystiolaeth sydd yn arwain at euogfarn Dreyfus. Yn sicr, roedd gan Dreyfus ei amddiffynwyr ymhlith y cyhoedd Ffrengig. Fodd bynnag, nid oedd carfan arwyddocaol o fewn cymdeithas Ffrengig yn credu bod y taliadau yn erbyn Dreyfus, ond roedd yn eithaf lleisiol am ei gred fod Dreyfus yn gweithredu ar ran cynllwyniaeth Iddewig helaeth ar danseilio Ffrainc a'i milwrol. Parhaodd casineb yr Iddewon a anwybyddwyd gan y grŵp yma mewn cylchoedd gwleidyddol ar yr ochr dde yn Ffrainc hyd yn oed ar ôl i Dreyfus gael ei brofi'n ddiniwed.¹³ O'r achos hwn, wnaeth Herzl sylweddoli mai'r unig ateb i'r broblem o wrth-Semitiaeth tuag at oedd iddynt gael eu gwlad eu hunain, yn ddelfrydol tir eu hynafiaid.¹⁴

Daeth Herzl ynghyd y Seionyddion mwyaf amlwg ar draw Ewrop er mwyn plotio strategaethau i droi'r weledigaeth Seionaidd i mewn i realiti. Cynhaliwyd y Gyngres Seionaidd gyntaf gan Theodor Herzl fel senedd symbolaidd ar gyfer lleiafrif bach o Iddewon oedd am weithredu yn unol ag amcanion Seionaidd. Agorodd y Gyngres ar fore Sul, 29ain o Awst 1897, yn neuadd gyngerdd Casino Municipal, Basel. Roedd y Gyngres Seionaidd yn ddigwyddiad gwbl unigryw. Rhoddwyd bathodyn i'r cyfranogwyr gyda'r geiriau, 'Sefydlu Gwladwriaeth Iddewig yw'r unig ateb posibl i'r Cwestiwn Iddewig'.¹⁵ Rhaid i'r mudiad Seionaidd weithio'n agored ac yn ffyddlon, gyda hyder y datganiadau dan sylw, ac yn unol â hwy.¹⁶ Eisteddodd y gyngres am dri diwrnod, o'r 29ain i'r 31ain o Awst 1897.

Gwnaed nifer o gynigion gan gynnwys sefydlu Cronfa Genedlaethol Iddewig, un arall i sefydlu pwyllgor ar gyfer llenyddiaeth Hebraeg a'r trydydd i gasglu ystadegau dibynadwy am yr Iddewon. Yn nyddiadur Herzl, dywedodd, 'Heddiw, sefydlais y wladwriaeth Iddewig. Pe bawn yn dweud hynny heddiw, byddai pobl yn fy nirmygu. Ond ymhen pum mlynedd – yn sicr ymhen hanner can mlynedd – fe welir fy mod yn iawn'.¹⁷ Ar 28ain o Dachwedd 1947, cytunodd y Cenhedloedd Unedig i ganiatáu i'r Iddewon sefydlu gwladwriaeth Israel.

¹² Steven Beller, *Anti-Semitism: A Very Short Introduction* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 2015), tt.76-77.

¹³ Eisen, *The Peace and Violence of Judaism: From the Bible to Modern Zionism*, tt.142-143.

¹⁴ Isaiah Friedman, 'Herzl, Theodor', (*Encyclopaedia Judaica*. Ed. Michael Berenbaum a Fred Skolnik. Cyfrol 9. Argraffiad ail. Detroit, MI: Macmillan Reference USA, 2007), <<http://go.galegroup.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ps/i.do?p=GvRL&u=walamp&id=GALE|CX2587508864&v=2.1&it=r&sid=exlibris>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

¹⁵ Vital, *The Origins of Zionism*, t.354.

¹⁶ Vital, *The Origins of Zionism*, t.361.

¹⁷ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t.120.

2.4 Tarddiad a Datblygiad Gwrth-Seioniaeth

Gwrth-Seioniaeth yw'r gwrthwynebiad i Seioniaeth. Cyn i wladwriaeth Israel gael ei sefydlu ym 1948, roedd gwrth-Seionyddion yn gwrthwynebu'r mudiad i greu gwladwriaeth Iddewig. Heddiw, mae gwrth-Seioniaeth yn gwrthod ac yn erbyn cyflwr Israel ac yn anghytuno'n llwyr ag ef. Cyn belled â bod Seioniaeth wedi bod, mae wedi bod gwrth-Seionyddion a hefyd Iddewon gwrth-Seionaidd. Yr oedd gwrth-Seioniaeth yn ideoleg Iddewig sefydledig a nes i'r Ail Ryfel Byd orchymyn cefnogaeth eang yn y ddiaspora. Heddiw, mae nifer gynyddol o Iddewon yn holi ac yn gwrthod Seioniaeth.¹⁸ Byddaf yn canolbwyntio yn uniongyrchol ar gwrth-Seioniaeth crefyddol yn ogystal â gwrth-Seioniaeth gwleidyddol.

2.4.1 Gwrth-Seioniaeth Crefyddol

Mae'n amlwg nad yw pawb yn derbyn cyflwr Israel ac yn gwrthod syniad Seioniaeth yn gyfan. Fodd bynnag, mae bod pobl yn gallu gwrthod cyflwr Israel ar sail grefyddol neu ar sail wleidyddol. Yr oedd Pab Piws X wedi gwrthod y syniad o Seioniaeth ar sail grefyddol. Dywedodd ar y 26ain o Ionawr 1904 gan wrthod rhoi cefnogaeth i sefydlu gwladwriaeth Iddewig ym Mhalesteina:

‘Ni allwn gefnogi’r mudiad hwn... Y mae daear Jerwsalem, os nad yn gysegredig o’r dechrau, wedi ei chysegru trwy fywyd Iesu Grist... Nid yw’r Iddewon wedi cydnabod ein Harglwydd, felly ni allwn ninnau yn cydnabod y genedl Iddewig... Y Ffydd Iddewig oedd sylfaen ein Ffydd ni. Ond fe’i disodlwyd gan ddysgeidiaeth Crist, ac ni allwn addef ei bod bellach yn grefydd ddilys... Os ewch chwi i Balesteina a sefydlu eich cenedl yno, byddwn yn barod ag eglwysi ac offeiriaid i fedyddio pob un ohonoch’.¹⁹

Mae Pab Piws X yn gwrthod y syniad o wladwriaeth Israel yn seiliedig ar safbwynt Cristnogol. Beth mae Pab Piws X yn ei ddweud yn hynod o esboniadol. Mae'n seilio'r safbwynt hwn bod yr Iddewon wedi gwrthod Iesu fel y Meseia a hefyd wedi diystyru dysgeidiaeth Iesu.

Yn ogystal, rhaid inni gydnabod nad oes gan yr holl Iddewon yr un farn ynghylch a ddylai'r Iddewon adennill gwladwriaeth Israel. Mae rhai Iddewon Uniongred yn gwrthod y syniad o Wladwriaeth Iddewig wrth i Awydd Seionyddion greu gwladwriaeth cyn-messianig ei gondemnio fel torri'r cyfamod gan y Uniongred gwrth-Seionaidd.²⁰ Yn ôl Dowty, ‘the great sin

¹⁸ Mike Marqusee, *If I Am Not For Myself: Journey of an Anti-Zionist Jew* (Llundain: Verso, 2010), t.vii.

¹⁹ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t.131.

²⁰ Charles Seymour Liebman, Moshe Shokeid, Å elomo A. DeÅjen, *Israeli Judaism: The Sociology of Religion in Israel* (Jersi Newydd: Transaction Publishers, 1995), t.26.

which has prevented the coming of the Messiah is none other than Zionism!'.²¹ Mae'n amlwg, oherwydd bod gwladwriaeth Israel yn wladwriaeth Iddewig, a chanlyniad hynny yw ei fod wedi atal dyfodiad y Meseia. Er bod Iddewon dros y canrifoedd wedi awyddus i Wladwriaeth Iddewig, mae Dowty yn awgrymu nad lle Seionyddion oedd hi i greu gwladwriaeth Iddewig cyn dyfodiad y Meseia. Yn ôl Gareth Lloyd Jones mae'r Iddewon Uniongred yn gwrthod gwladwriaeth Iddewig Israel oherwydd, 'gwaith Duw fyddai achub ei wlad o ddwylo estron. Er iddynt fyw yn Israel er 1948, y mae'r Iddewon hynny sydd yn perthyn i fudiadau eithafol yn deol i wrthod cydnabod y wladwriaeth am mai dyn nid Duw a'i sefydlodd'.²²

2.4.2 Gwrth-Seioniaeth Wleidyddol

Mae rhai Iddewon ar draws y byd hefyd yn gwrthwynebu Seioniaeth gan nad ydynt yn teimlo bod angen ffurfio a byw mewn gwladwriaeth Iddewig ar sail wleidyddol. Nid ydynt yn credu y dylid sefydlu gwladwriaeth Israel am lawer o resymau gwleidyddol gwahanol.

Esiaml o'r farn hon yw'r hyn a ddywed Mike Marqusee yn ei lyfr *If I Am Not For Myself: Journey of an Anti-Zionist Jew*. Dywed, 'We are told that for a Jew to deny the Jewish State is to deny his or her selfhood... For me being an anti-Zionist is inextricable from being a democrat, a socialist, a humanist, and a rationalist'.²³ I rai Iddewon, mae rhan o'u hunaniaeth yn wladwriaeth ei hun, ond ar ôl nifer o flynyddoedd o eithriad mae cymunedau Iddewig wedi gorfod ymgartrefu mewn mannau eraill ac dros genedlaethau wedi adeiladu cartrefi a chymunedau. Adlewyrchir hyn Marqusee gan nad yw ei ffydd Iddewig yn gysylltiedig â'r tir sanctaidd. Mae'n amlwg y bydd rhai Iddewon yn cysylltu'r tir â'u hunaniaeth dra nad yw rhai Iddewon yn gweld Jerwsalem mor arwyddocaol.

2.5 Beth yw Gwrth-Semitiaeth?

Mae'r term gwrth-Semitiaeth yn derm anhygoel gymhleth ac anodd i allu ei ddiffinio. Dyfeisiwyd y term gwrth-Semitiaeth tua 1873 gan Wilhelm Marr i ddisgrifio'r polisi tuag at Iddewon yn seiliedig ar hiliaeth yr oedd ef ac eraill yn ei argymhell.²⁴ Wedi iddi gael ei defnyddio gyntaf, roedd llawer o ddadleuon ynglŷn â'r hyn y mae'r term yn ei olygu mewn gwirionedd. Roedd ysgolheigion gwahanol wedi archwilio gelyniaeth i Iddewon mewn gwahanol gyfnodau ac yn galw'r hyn a ddarganfuwyd ganddynt 'gwrth-semitiaeth'. Fodd

²¹ Dowty, *The Jewish State: A Century Later, Updated With a New Preface*, t.164.

²² Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t.74.

²³ Marqusee, *If I Am Not For Myself: Journey of an Anti-Zionist Jew*, tt.291-292.

²⁴ Gavin I. Langmuir, *Toward a definition of antisemitism* (California: University of California Press, 1996), t.311.

bynnag, rhoddasant ystyron gwahanol i'r tymor, dyddiadau gwahanol ar gyfer ei ymddangosiad, ac esboniadau gwahanol o'r rheswm pam yr oedd wedi ymddangos. Felly roedd angen am ddiffiniad neu syniad cynyddol o wrth-Semitiaeth yn amlwg.²⁵ Heddiw, mae defnydd cyffredin o wrth-Semitiaeth i gyfeirio at unrhyw elyniaeth yn erbyn Iddewon.²⁶ Yn ôl Sonja Weinburg, 'Anti-Semitism has been used in scholarly research as an, "umbrella term for negative stereotypes about Jews, for resentment and actions which are directed either at single Jews as Jews or at the whole of Judaism..."'.²⁷ Dyma'r diffiniad y byddaf yn ei gymhwyso.

Ar y llaw arall mae gwrth-Semitiaeth hyd yn oed yn ddyfnach nag un gair. Mae Ben Cohen yn nodi bod gwahanol fathau o wrth-Semitiaeth ac yn datgan y gwahaniaeth rhwng gwrth-Semitiaeth *bierkeller* a gwrth-Semitiaeth *bistro*. Mae gwrth-Semitiaeth *Bierkeller* yn dreisgar, yn sarhaus, yn fregus ac yn cael ei greu yn benodol gan gasineb; mae'n hawdd adnabod unigolyn o'r fath. Ar y llaw arall mae gwrth-Semitiaeth *bistro* yn gwrtais, sifil a soffistigedig. Fodd bynnag, mae Cohen yn mynd ymlaen i ddweud bod gwrth-Semitiaeth *bistro* yn ddiddorol ynddo'i hun, ac mae'n arwydd o broblem ddwys mewn unrhyw ofod cymdeithasol sydd yn meithrin neu'n ei oddef. Yn amlwg mae'r diffiniad o wrth-Semitiaeth yn hynod o gymhleth a gellir ei ddehongli mewn sawl ffordd wahanol. Mae'r diffiniad o wrth-Semitiaeth yn dibynnu ar ddehongliad unigol a chredoau unigol, gan ei fod yn glir bod llawer o wahanol ddadleuon i'r hyn y mae'r diffiniad cywir o wrth-Semitiaeth.

Yn ddiweddar, mae diffiniad arall o wrth-semitiaeth wedi dod i'r amlwg gan y Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocaust (International Holocaust Memorial Alliance). Eu diffiniad yw 'Mae gwrth-Semitiaeth yn gyfystyr ag agwedd at Iddewon y gellid ei hystyried fel casineb tuag at Iddewon. Mae hyn yn gyfystyr â datganiadau rhethregol a gweithredoedd o wrth-Semitiaeth tuag at Iddewon neu unigolion sydd ddim yn Iddewon a hefyd tuag at eu heiddo, tuag at sefydliadau cymunedol Iddewig a'u sefydliadau crefyddol'. Mae'r rheswm y mae'r gynghrair wedi mabwysiadu'r diffiniad newydd hwn yn ysbryd Datganiad Stockholm sydd yn datgan, 'With humanity still scarred by... antisemitism and xenophobia the international community shares a solemn responsibility to fight those evils'.²⁸

²⁵ Langmuir, *Toward a definition of antisemitism*, t.3.

²⁶ Langmuir, *Toward a definition of antisemitism*, t.314.

²⁷ Sonja Weinberg, *Pogroms and Riots: German Press Responses to Anti-Jewish Violence in Germany* (Frankfurt: Peter Lang AG, 2010), t.18.

²⁸ International Holocaust Memorial Alliance, 'Working Definition of Antisemitism', <<https://www.holocaustremembrance.com/working-definition-antisemitism>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

2.5.1 Tarddiad a Datblygiad Gwrth-Semitiaeth

Mae'n amlwg bod y syniad o wrth-Semitiaeth yn deillio o'r syniad o wrth-Iddewiaeth. Nododd Jean-Paul Sartre nad yw gwrth-Semitiaeth yn broblem Iddewig, mae'n broblem i bobl nad ydynt yn Iddewon, ac mae'n rhaid deall yn bennaf fel, 'ein bai (nid Iddewon)'.²⁹ Mae hyn yn cefnogi'r syniad bod gwrth-Semitiaeth yn dod i'r amlwg yn gyntaf o ganlyniad i ideoleg Gristnogol gwrth-Iddewig sydd â'i wreiddiau yn y Testament Newydd. Gellid darlunio camddehongliad ofnadwy hanes Iddewig o bron unrhyw dudalen o lenyddiaeth Gristnogol gynnar. Yn ôl Gareth Lloyd Jones, 'Afraid dweud fod gwrth-Iddewiaeth lawer iawn hŷn na'r grefydd Gristnogol. Fel y dengys y Beibl, gellir olrhain atgasedd y Cenedl-ddyn at yr Iddew i orffennol pell y byd paganaidd'.³⁰

Er bod gwrth-semitiaeth yn derm cymharol fodern, mae tystiolaeth bod casineb hiliol o Iddewon wedi bod ers. Enghraifft o hyn yw'r syniad bod Iddewon yn enllib gwaed. Erbyn canol y ddeuddegfed ganrif daeth Iddewon i gael ei gyhuddo o lofruddiaeth plant Cristnogol defodol, y cyhuddiad cyntaf o'r fath yn dod dros farwolaeth William of Norwich yn 1144. Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg roedd hyn wedi cael ei alw'n enllib gwaed, lle'r oedd Iddewon yn gwaedu plant er mwyn defnyddio'r gwaed i gymysgu'r *matzos* (bisgedi o fara heb ei lefeinio) ar gyfer y Pasg Iddewig. Arweiniodd y cyhuddiad o enllib gwaed i dreialon ac ymosodiadau ar Iddewon yn yr Oesoedd Canol a hefyd yn y cyfnod modern cynnar.³¹

Cymeriad hollbwysig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a wnaeth y gwahaniaeth rhwng Iddewon a gwledydd eraill oedd Wilhelm Marr, a ysgrifennodd y pamffled gwrth-semitaidd *The Victory of Jewry over Germandon*. Gwnaeth Marr y cysylltiad o glymu hil i'r 'cwestiwn Iddewig', er nid oedd yn ymhelaethu'n eglur ar yr hyn a ddynododd hil Iddewig o hiliau eraill. Roedd Eugen Duerhing wedi ymhelaethu ar syniad Marr, a honnodd mai gwaed oedd y marc gwahaniaethol o ran hil yn 1881. Roedd syniadau Duerhing ynglŷn â gwaed yn ddefnyddiol yn ddiweddarach ar gyfer propaganda gwrth-Semitaidd Natsïaidd.³² Yn ychwanegol, sefydlodd Marr bapur newydd gwrth-Semitaidd ac ym 1879 sefydlodd Gynghrair gwrth-Semitaidd; y sefydliad cyntaf o'i fath o'r byd. Yn dilyn hyn, daeth corff mawr o lenyddiaeth gwrth-Semitaidd

²⁹ Beller, *Anti-Semitism: A Very Short Introduction*, t.4.

³⁰ Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t.16.

³¹ Beller, *Anti-Semitism: A Very Short Introduction*, t.13.

³² Jocelyn Hellig, *A Short History: The Holocaust and Antisemitism* (Llundain: Oneworld Publications, 2003), t.277.

i'r amlwg, gan gytuno bod yr Iddewon yn ras ac yn bygwth purdeb diwylliannol, biolegol a chenedlaethol yr Almaen.³³

Wrth gyfeirio at Iddewon fel enllib gwaed ac yn ddiweddarach, â hil wahanol oherwydd eu gwaed, yn ogystal â bygythiad i Almaenwyr, defnyddiwyd y motiffau hyn gan Hitler a'r Blaid Natsiaidd fel propaganda yn erbyn yr Iddewon. Dywedodd Hitler yn ei lyfr *Mein Kampf*, 'By resisting the Jew, I am fighting for the Lord's work'.³⁴ Mae'n amlwg bod Hitler yn credu ei fod yn gwneud gwaith yr Arglwydd ac yn dilyn ei ddyletswydd fel Cristion. Ar gyfer Hitler a'r blaid Natsiaidd, dyma'r ffordd o gyfiawnhau'r digwyddiadau annisgwyl a ddigwyddodd yn ystod yr Holocaust. Enghraifft o gyfeirio at yr Iddewon fel gwaed enllib fel rhan o'r propaganda Natsiaidd o fewn y cyfryngau ac mewn papurau newydd. Roedd Streicher, golygydd y papur newydd gwrth-Semitaidd *Der Stürmer*, yn cytuno a beth ddywedodd Duerhing am waed yr Iddewon ac roedd hyd yn oed yn cynnwys y gred hon mewn erthyglau yn y papur newydd. Enghraifft o hyn yw cartŵn o'r enw 'Y Felltith yn y Gwaed' lle mae llun o fabi gyda'r capsiwn, 'Mae pob plentyn Iddewig yn dod yn Iddew'.³⁵ Mae hyn yn awgrymu, os ydych chi'n cael eich geni yn y diwylliant Iddewig, nad oes gwaredu oddi wrth hynny gan mai gwaed eich rhieni Iddewig yw'r gwaed sydd gennych, ac awgrymir bod yn gwaed gwael.

2.6 Casgliad y Bennod

Pwrpas y bennod hon oedd diffinio'r hyn y mae Seioniaeth, gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth yn ei olygu. Gwnaethpwyd yn glir bod gan bob un o'r termau hyn eu hystyr a'u hanes arbennig eu hunain. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd canfod gwreiddiau gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. O ganfod y diffiniad perthnasol o'r termau hyn a'u harwyddocâd, gellir gosod sylfaen cadarn ar gyfer Pennod 3, lle byddaf yn trafod y dadleuon dros ac yn erbyn y cysylltiadau rhwng gwrth-Semitiaeth a gwrth-Seioniaeth, a Phennod 4 lle byddai'n defnyddio'r Blaid Lafur fel esiampl gyfoes neu astudiaeth achos.

³³ Hellig, *A Short History: The Holocaust and Antisemitism*, t.278.

³⁴ Hellig, *A Short History: The Holocaust and Antisemitism*, t.23 (gan gyfeirio at y *Mein Kampf* gan Adolf Hitler 1937, t.74).

³⁵ Randall Bytwerk, *Julius Streicher: Nazi Editor of the Notorious Anti-Semitic Newspaper Der Stürmer* (Cooper Square Publishers, 2010), t.104.

Pennod 3

Y Cysylltiadau rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth

3.1 Cyflwyniad y Bennod

Nod y bennod hon yw asesu a oes unrhyw gysylltiadau rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth trwy ddefnyddio tystiolaeth ysgolheigaidd. Mae'n amlwg bod yna dadleuon ynglŷn â'r perthynas rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, yn ogystal â dadleuon nad oes unrhyw gysylltiadau rhwng y ddau. Yn ôl David Feldman, 'The relationship of anti-Zionism or fierce criticism of Israel to antisemitism remains a point of intense debate'.³⁶ Yn syth, nodir cymhlethdod ac anhawster y ddadl o gysylltu gwrth-Seioniaeth â gwrth-Semitiaeth, oherwydd mae llawer o wahanol ddehongliadau i'w harchwilio.

3.2 Y Cysylltiadau rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth

Mae rhai ysgolheigion wedi dadlau bod yna cysylltiadau rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, fodd bynnag nid yw'r ddadl yn un syml. Mae Hirsh yn datgan, 'I am not saying that anti-Zionism is a form of antisemitism; but rather that there is a complex relationship between the two'.³⁷ Mae ambell wedi nodi, fel Derek Penslar, nid yw'r cysylltiadau posib rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth yn syniad modern, ond mae'n syniad sydd yn flynyddoedd oed. Dywedodd Penslar bod gwrth-Seioniaeth yn ymylol i'r prif destunau gwrth-Semitaidd a'r mudiadau perthnasol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at ganol yr ugeinfed ganrif; ac eto roedd yn ganolog i feddylfryd Arabaidd am Iddewon ac Iddewiaeth.³⁸ O'r hyn a ddywedodd Penslar, daeth y ddadl hon yn amlwg yn bennaf yn yr ugeinfed ganrif.

3.2.1 Mae gwrth-Seioniaeth yn cael ei ysgogi gan wrth-Semitiaeth

Mae'n amlwg bod yna ddadleuon dros weld y cysylltiadau rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. Un ddadl a nodir yn aml yw mai gwrth-Semitiaeth yn cael ei ysgogi gan wrth-Seioniaeth. Yn ychwanegol, dywedodd Martin Luther King, 'pan fydd pobl yn beirniadu

³⁶ David Feldman, 'Anti-Zionism and Antisemitism in Britain', <https://www.jmberlin.de/sites/default/files/antisemitism-in-europe-today_9-feldman.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

³⁷ David Hirsh, 'Anti-Zionism and Antisemitism: Cosmopolitan Reflections', <<http://research.gold.ac.uk/2061/>> (Dyddiad Mynediad: 25/01/2019).

³⁸ Jeffrey Herf, *Anti-Semitism and Anti-Zionism in Historical Perspective: Convergence and Divergence* (Lloegr: Routledge, 2007) <<https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=CYXfAQAAQBAJ&oi=fnd&pg=PT6&dq=anti+zionism+&ots=bV-5QcORK8&sig=YvS-TAaVGMAaGnCSFDJ7tvMA5g#v=onepage&q=anti%20zionism&f=false>> (Dyddiad Mynediad: 25/02/2019).

Seionyddion, maent yn golygu Iddewon. Rydych chi'n siarad gwrth-Semitiaeth'.³⁹ Yn llyfr Anthony Julius, *Trials of the Diaspora: a History of Anti-Semitism in England*, mae'n nodi bod gwrth-Seioniaeth wrth-Semitaidd yn dod i'r amlwg yn y 1960au a dechrau'r 1970au o ganlyniad i'r Rhyfel Chwe Dydd, ond daeth yn ideoleg fwy canolog yn y 1990au a'r 2000au.⁴⁰ Mae rhai sydd yn astudio'r cysylltiad rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, er enghraifft Matas a Foxman, yn dadlau bod gwrth-Seioniaeth yn ddiamau yn ffurf ar wrth-Semitiaeth. Mae'r farn hon yn seiliedig ar y syniad ei fod yn gwadu'r Iddewon ar yr adain dde o hunan-benderfyniad cenedlaethol, tra bod yr Iddewon yn cydnabod bod gan bob cenhedloedd arall yr hawl i'r hunan benderfyniad hwnnw.⁴¹ Yn ôl Matas, 'For some, anti-Zionism is the sole source of their antisemitism'.⁴² Mae cysylltiad amlwg yn enwedig ar yr achos hwn, rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, oherwydd gall gwrth-Semitiaeth cael i ysgogi gan gwrth-Seioniaeth, ac y gall gwrth-Seioniaeth ddod y rheswm unig dros wrth-Semitiaeth pobl.

Gallwn weld effaith gwrth-Seioniaeth ar wrth-Semitiaeth drwy edrych ar yr ymosodiadau dieflig a wnaed ar Iddewon yn seiliedig ar eu cred bod ganddynt yr hawl i wladwriaeth Israel. Bu cynnydd mawr mewn ymosodiadau yn erbyn Iddewon, yn enwedig yn Ewrop. Dioddefwyr propaganda casineb cyntaf yw'r rhai sydd yn cael eu bwyta gan gasineb. Mae gwrth-Semitiaeth yn peri bod Iddewon mewn perygl o golli eu bywydau a'u teuluoedd. Ond nid yw rhai digwyddiadau gwrth-Semitaidd yn gwrth-Seionaidd. Pan fyddwn yn gwahanu gwrth-Seioniaeth oddi wrth wrth-Semitiaeth, mae nifer a difrifoldeb yr enghreifftiau o ddigwyddiadau gwrth-Semitaidd yn gostwng.⁴³ Mae hyn yn awgrymu bod cysylltiad clir rhwng ymosodiadau gwrth-Semitaidd ar Iddewon a'r gred nad oes gan Iddewon yr hawl i wladwriaeth Israel. Mae'r berthynas rhwng y naill a'r llall yn gwbl glir.

3.2.2 Gwrth-Seioniaeth yw'r wrth-Semitiaeth newydd

Dadl arall sydd yn cysylltu gwrth-Seioniaeth â gwrth-Semitiaeth yw'r farn mai gwrth-Seioniaeth yw'r wrth-Semitiaeth newydd. Yn ôl David Matas, mae ffurfiau eraill o wrth-Seioniaeth mor hen â gwrth-Semitiaeth ei hun, gan eu bod yn ailadrodd y chwedlau traddodiadol gwrth-Semitaidd, gan wneud ensyniadau gwrth-Israel yn ogystal. Mae gwrth-

³⁹ Denis Macshane, *Globalising Hatred: A New Antisemitism* (Llundain: Weidenfeld & Nicolson, 2009), t. 83.

⁴⁰ David Feldman, 'Anti-Zionism and Antisemitism in Britain', <https://www.jmberlin.de/sites/default/files/antisemitism-in-europe-today_9-feldman.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

⁴¹ David Hirsh, 'Anti-Zionism and Anti-Semitism: Cosmopolitan Reflections', <http://research.gold.ac.uk/2061/1/Hirsh_Yale_paper.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

⁴² David Matas, *Aftershock: Anti-Zionism & Anti-Semitism* (Canada: Dundurn Publishing, 2005), t.219.

⁴³ Matas, *Aftershock: Anti-Zionism & Anti-Semitism*, t.219.

Seioniaeth wedi mabwysiadu'r hen wrth-Semitiaeth hon ac wedi ei feddiannu o'r newydd.⁴⁴ Nodir Hirsh mae gwrth-Semitiaeth yn ffenomen gynyddol yn Ewrop gyfoes ac mae'n dibynnu ar y rhagdybiaeth bod hon yn gysylltiedig â chynnydd yn erbyn gwrth-Seioniaeth. Mae damcaniaethwyr 'gwrth-Semitiaeth newydd' yn aml yn deall gwrth-Seioniaeth i fod yn ffurf newydd o wrth-Semitiaeth sylfaenol.⁴⁵

Dull arall o gysylltu gwrth-Seioniaeth gyda'r wrth-Semitiaeth newydd yw datgan bod gwrth-Seioniaeth yn cael ei defnyddio i guddio gwrth-Semitiaeth pobl. Yn ôl Arglwydd Jonathan Stacks, 'Anti-Semitism itself is socially unacceptable so it can only survive the way a virus survives which is by mutating... Today you can't hate anyone for their race so you hate them for their nation state and that is why anti-Zionism is the new anti-Semitism'.⁴⁶ Mae Stacks yn awgrymu fel a ganlyn: oherwydd bod gwrth-Semitiaeth yn gwbl annerbyniol ac nad oes ganddo le yn ein cymdeithas heddiw, mae pobl yn trin gwrth-Seioniaeth fel yr wrth-Semitiaeth newydd. Gan ei bod yn dderbyniol bod yn wrth-Seionaidd i nifer yn ein cymdeithas, mae'n ei gwneud hi'n hawdd gwneud ymdrech i guddio gwrth-Semitiaeth ar sail gwrth-Seionaidd.

Eto, er gwaethaf ymdrechion gorau academyddion a newyddiadurwyr, nid oes cytundeb bod gelyniaeth i Israel yn agos iawn at wrth-Semitiaeth. Mae perthynas gwrth-Seioniaeth neu feirniadaeth ffyrnig ar Israel i wrth-semitiaeth yn parhau i fod yn bwynt dadl ddwys. Yn erthygl a gyhoeddwyd yn 2003, mae Brian Klug yn cydnabod bod rhai ymosodiadau ar Israel oedd ar sail gwrth-Semitaidd yn unig. Nodir Klug, 'the empirical evidence overwhelmingly supports the view that hostility towards Israel, at bottom, is not a new form of antisemitism, it is a function of a deep and bitter political conflict'. Yn yr un modd, dywedodd Jonathan Judaken, 'the formula that "antiZionism is antisemitism" is too simplistic'.⁴⁷ Felly, mae'r ddadl hon yn parhau i fod yn drafodaeth barhaus ac mae'n anodd dod i gasgliad cadarn.

3.3 Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth

Ar y llaw arall, gellir dadlau nad oes unrhyw gysylltiad rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, ac mae amheuwyr yn deall gwrth-Seioniaeth fel ffenomen hollol wahanol i wrth-

⁴⁴ Matas, *Aftershock: Anti-Zionism & Anti-Semitism*, t.34.

⁴⁵ David Hirsh, 'Anti-Zionism and Anti-Semitism: Cosmopolitan Reflections', <http://research.gold.ac.uk/2061/1/Hirsh_Yale_paper.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

⁴⁶ BBC Newsnight, 'Lord Jonathan Sacks: "Anti-Zionism is the new anti-Semitism"', <<https://www.youtube.com/watch?v=Ww4S4a3-J4c>> (Dyddiad Mynediad: 25/02/2019).

⁴⁷ David Feldman, 'Anti-Zionism and Antisemitism in Britain', <https://www.jmberlin.de/sites/default/files/antisemitism-in-europe-today_9-feldman.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

Semitiaeth.⁴⁸ Yn ôl Gilles Martinet, 'Ni ddylid drysu gwrth-Seioniaeth gyda gwrth-Semitiaeth'.⁴⁹ Cytunwyd y syniad hwn hefyd gan Hanan Schlesinger. Nid yw gwrth-Seioniaeth o reidrwydd yn gyfystyr â gwrth-Semitiaeth. Gall pobl wrth-Semitaidd wrthwynebu'r syniad bod gan y genedl Iddewig ei gwladwriaeth ei hun, gan eu bod yn gwrthwynebu'r syniad bod gan yr Iddewon unrhyw bŵer neu ryddid. Yn aml mae gwrth-Semitiaeth yn cael ei fwydo gan wrth-Seioniaeth. Fe'i canfyddir yn aml gyda'i gilydd ac ar adegau gall hyd yn oed fod yn anghyfreithlon. Ond nid yw hynny'n eu troi i mewn i'r un peth.⁵⁰ Ymhellach, gall Iddewon bod yn gwrth-Seionaidd ac nad ydynt yn gwrth-Semitaidd. Mae gwrth-Seionyddion Uniongred yn cytuno bod pob Iddew yn meddu hanes cyffredin. Maent yn dal i gredu mai Eretz Israel yw gwlad yr Iddewon, a bydd y Meseia yn eu harwain. Felly, er bod modd gwrthsefyll gwrth-Seioniaeth weithiau gyda gwrth-Semitiaeth, fodd bynnag, gallent hefyd gael eu gwahanu am resymau cwbl wahanol.⁵¹

Yn ei herthygl ddiweddar yn y *New York Times*, mae Michelle Goldberg yn honni nad yw gwrth-Seioniaeth yr un peth â gwrth-Semitiaeth. Mae Goldberg yn nodi bod y ddau yn cyfleu sefyllfaoedd gwahanol iawn i'w gilydd. Mae hi'n dadlau ei bod hi'n bosibl bod yn wrth-Seionaidd heb fod o reidrwydd yn wrth-Semitaidd. Nodir bod gan yr Iddewon ar draws y byd ddiddordebau gwahanol iawn, a gall y diddordebau yma wrthdaro weithiau â rhai Gwladwriaeth Israel; mae gwrth-Seioniaeth yn gwrthwynebu'r Wladwriaeth Iddewig, ac nid oes ganddo ddim i'w wneud ag agweddau rhywun tuag at Iddewon o safbwynt hil. Fodd bynnag, mae Shuki Friedman yn cydnabod y gall y ddadl hon fod yn gamarweiniol, gan nad yw'r dadansoddiad yn cydnabod realiti gwrth-Seioniaeth.⁵²

Yn ychwanegol, ar ôl edrych ar y dadleuon dros weld cysylltiad rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, gall gwrth-Seioniaeth fod yn gymhellant mawr ar gyfer gwrth-Semitiaeth fel bod gwrth-Seioniaeth yn dod yn wrth-Semitiaeth newydd. O hyn, gallwn weld bod gwrth-Seioniaeth yn gallu bod yn rhan o wrth-Semitiaeth, ond weithiau dydy gwrth-Semitiaeth ddim yn cysylltu â gwrth-Seioniaeth. Wrth i ni ystyried yr hyn a drafodwyd ym mhennod 2, mae'n

⁴⁸ David Hirsh, 'Anti-Zionism and Anti-Semitism: Cosmopolitan Reflections', <http://research.gold.ac.uk/2061/1/Hirsh_Yale_paper.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

⁴⁹ Macshane, *Globalising Hatred: The New Antisemitism*, t.42.

⁵⁰ Hanan Schlesinger, 'Anti-Zionism = Antisemitism? Not Necessarily!', <<https://www.myjewishlearning.com/rabbis-without-borders/anti-zionism-antisemitism-not-necessarily/>> (Dyddiad Mynediad: 5/2/2019).

⁵¹ Robert S. Wistrich, *Anti-Zionism and Antisemitism in the Contemporary World* (Llundain: The Macmillan Press LTD, 1990), t.200.

⁵² Shuki Friedman, 'Anti-Zionism is a dangerous form of anti-Semitism', <<https://blogs.timesofisrael.com/anti-zionism-is-a-dangerous-form-of-anti-semitism/>> (Dyddiad Mynediad: 25/02/2019).

amlwg bod gan wrth-Semitiaeth gymhelliant arall heblaw gwrth-Seioniaeth, er enghraifft bod Iddewon yn cael eu casáu ar sail ar y syniad eu bod yn gweithredu ffurf ar enllib gwaed. Nid oes gan y cyswllt hwn unrhyw gysylltiad â gwrth-Seioniaeth. Mae Livingstone yn cytuno â hyn gan dweud, 'for far too long the accusation of antisemitism has been used against anyone who is critical of the policies of the Israeli government'.⁵³

3.3.1 Trafod diffiniadau o wrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth

Fel y trafodwyd ym mhennod 2, mae gan y ddau derm - gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth - ddau ddiffiniad gwahanol i'w gilydd. Gwrth-Seioniaeth yw'r farn sydd yn hollol groes i Seioniaeth. Ac er y gellir dweud bod gwrth-Seioniaeth yn meddu sail grefyddol neu wleidyddol, mae gan y naill a'r llall yr un gred ac yn gwrthwynebu Seioniaeth yn llwyr.

Ar y llaw arall, term yw gwrth-Semitiaeth a ddyfeisiwyd gan Wilhelm Marr yn 1873. Er bod gwahanol ddehongliadau o'r hyn a olyga gwrth-Semitiaeth, y diffiniad a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yw'r un a nodir gan Sonja Weinburg; mae gwrth-Semitiaeth yn cael ei ddefnyddio i ddynodi stereoteip negyddol sydd yn cyfeirio naill ai at Iddew unigol neu Iddewon yn y lluosog neu Iddewiaeth gyfan.⁵⁴

Felly trwy gymharu'r ddau ddiffiniad, gwrth-Seioniaeth yw'r gwrthwyneb i Seioniaeth ac yn gwrthwynebu creu Gwladwriaeth Israel yn 1948. Ar y llaw arall, gwrth-Semitiaeth yw'r stereoteipio gwael o Iddewon a all arwain at gamau niweidiol tuag at Iddewon unigol neu Iddewon yn gyffredinol. Felly, nid oes unrhyw gysylltiad fel y cyfryw rhwng y ddau ddiffiniad.

3.4 Casgliad y Bennod

Mae'n amlwg bod perthynas cymhleth iawn rhwng gwrth-Semitiaeth ac gwrth-Seioniaeth. Ar un llaw, yn bendant mae yna elfennau o wrth-Seioniaeth o fewn gwrth-Semitiaeth, pan fod ymosodiadau gwrth-Semitaidd yn erbyn Iddewon yn cael eu gwneud ar sail gwrth-Seioniaeth, yn ogystal â'r ddadl mai gwrth-Seioniaeth yw'r wrth-Semitiaeth newydd. Ar y llawr arall, mae'n amlwg bod dadleuon cryf dros ddweud nad oes cysylltiad rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. Trwy edrych ar y dadleuon rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth, mae'n amlwg bod perthynas gymhleth rhwng y ddau. Efallai ei bod yn deg dweud y gall gwrth-

⁵³ David Hirsh, 'Anti-Zionism and Anti-Semitism: Cosmopolitan Reflections', <http://research.gold.ac.uk/2061/1/Hirsh_Yale_paper.pdf> (Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

⁵⁴ Weinberg, *Pogroms and Riots: German Press Responses to Anti-Jewish Violence in Germany*, t.18.

Celyn Thomas: 1600151

Seioniaeth fod yn elfen sydd yn ysgogi teimladau a datganiadau o wrth-Semitiaeth mewn rhai pobl.

Pennod 4

Astudiaeth Achos: Y Blaid Lafur

4.1 Cyflwyniad y Bennod

Yr wyf wedi penderfynu canolbwyntio ar y Blaid Lafur fel astudiaeth achos yn y traethawd hir yma. Dewisais ffocysu ar y Blaid Lafur oherwydd yn y blynyddoedd diwethaf bu nifer o honiadau bod aelodau o fewn y Blaid Lafur, gan gynnwys arweinydd y Blaid Llafur, Jeremy Corbyn, yn wrth-Semitaidd ac yn gwrth-Seionaidd. Mae'r sefyllfa hon yn berthnasol iawn wrth geisio archwilio'r honiadau hyn ynghylch y Blaid Lafur yn benodol gan ei fod yn dylanwadu ar ein gwleidyddiaeth sydd yn effeithio ein cymdeithas a'n cymunedau dros Brydain. Rhaid cydnabod bod trafodaeth ar wrth-Semitiaeth yn chwarae fwy o rôl o fewn y Blaid Lafur na gwrth-Seioniaeth ac mae mwy o gyhuddiadau bod y Blaid yn wrth-Semitaidd. Ymhellach, mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhai aelodau o fewn y Blaid Lafur yn wrth-Semitaidd ac yn wrth-Seionaidd. Mae'n bwysig nodi nad yw cysylltiad y Blaid Lafur â chyhuddiadau gwrth-Semitaidd a gwrth-Seionaidd yn ffenomen newydd fel y dangosir yn yr achos hwn.

4.2 Hanes gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur

Ym Mhrydain ar ddiwedd yr oes Fictoraidd, roedd math o wrth-Semitiaeth sosialaidd yn dod i'r amlwg oedd yn sôn am 'arianwyr Iddewon' y tu ôl i Ryfel Cyfalafwyr Iddewon. Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd meddylwyr sosialaidd a Marcsaidd yn datblygu beirniadaeth graidd ar y chwith ynghylch cyfalafiaeth a chyllid rhyngwladol, gan ddibynnu ar ddamcaniaethau ynghylch cynllwyn gwrth-Semitaidd sydd yn cysylltu Iddewon â chyfalafiaeth.⁵⁵ Roedd gwleidyddiaeth Prydain cyn 1939 wedi cael ei nodweddu gan wrth-Semitiaeth. Adlewyrchir hyn gan hanes Hugh Dalton, a oedd yn un o'r ffigurau allweddol yn y Blaid Lafur yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yr oedd Dalton yn sefyll yn yr etholiad yng Nghaerdydd yn 1923 yn erbyn yr Aelod Seneddol Rhyddfrydol Iddewig, Syr Alfred Mond. Mewn araith, enillodd Dalton gymeradwyaeth pan gyfeiriodd at Mond fel un nad oedd erioed wedi gweld 'y tu hwnt i'r Hen Destament' – tystiolaeth uniongyrchol bod aelodau'r blaid wedi gwneud datganiadau gwrth-Semitaidd am ganrif o leiaf.⁵⁶

⁵⁵ Dave Rich, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism* (Llundain: Biteback Publishing Ltd, 2016), tt.200-202.

⁵⁶ Macshane, *Globalising Hatred: The New Antisemitism*, t. 20.

Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers i Jeremy Corbyn ddod yn arweinydd y Blaid Lafur, fe ymddengys bod gwrth-Semitiaeth mor amlwg o fewn y Blaid Lafur heddiw ag erioed. Mae penawdau newyddion dyddiol ynglŷn â'r Blaid Llafur a chyhuddiadau o wrth-Semitiaeth, ac mae Aelodau Seneddol Llafur hyd yn oed wedi gadael y blaid oherwydd tueddiadau gwrth-Semitaidd o fewn y blaid. Enghraifft o hyn yw'r pennawd yn y papur newydd *Haaretz*, sydd yn nodi, 'Seven Labour Party Lawmakers Quit Over "Institutional anti-Semitism"''.⁵⁷ Mae'r pennawd hwn yn amlygu pa mor fawr yw problem gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid.

4.3 Hanes gwrth-Seioniaeth o fewn y Blaid Lafur

Mae gwrth-Seioniaeth wedi bod yn amlwg yn y Blaid Lafur ac mae yna dystiolaeth dydy hyn ddim yn ffenomenon newydd. Ar y dechrau, croesawyd creu'r wladwriaeth Israel ym 1948 ar draws yr adain chwith ym Mhrydain. Cefnogodd y Blaid Lafur y syniad o greu cartref cenedlaethol Iddewig ym Mhalesteina, o'r Datganiad Balfour yn 1917 hyd ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Roedd cysylltiadau cryf rhwng Plaid Lafur Prydain ac Israel, yn uniongyrchol ac fel chwaer bartïon rhyngwladol sosialaidd.⁵⁸ Yn y 1960au, roedd gwleidyddion Llafur fel Harold Wilson, Richard Crossman a Michael Foot yn frwd o blaid Seioniaeth. Fodd bynnag, newidiodd y sefyllfa o gefnogi Seioniaeth yn y Blaid Lafur, ac fe'i tanseiliwyd gan ddyfodiad y Chwith Newydd a arweiniodd at broses a welodd y Blaid Lafur bellach yn atal gwrth-Seioniaeth.⁵⁹

Roedd y Chwith Newydd ym Mhrydain wedi dechrau ymgychu'n weithredol ar ran Palesteina, ac yn y 1970au, lansiwyd y grwpiau gweithredol sylfaenol cyntaf a fu'n ymroi yn benodol i'r achos Palesteinaidd. Dechreuodd y gefnogaeth gynyddol dros Balesteina gael effaith ar bolisi'r Blaid Lafur yn yr 1980au, degawd pan ddechreuodd y berthynas rhwng y blaid a'r Iddewon Prydeinig ddod yn amlwg.⁶⁰ Yn ôl yr hanesydd Colin Shindler, erbyn yr 1980au, roedd Llundain wedi dod yn ganolfan Ewropeaidd o wrthwynebiad i bolisiau Israel - ac mewn nifer

⁵⁷ The Associated Press a Haaretz, 'Seven Labour Party Lawmakers Quit Over "Institutional anti-Semitism"', <<https://www.haaretz.com/world-news/europe/biggest-split-in-labour-party-s-history-over-institutional-anti-semitism-1.6942380>> (Dyddiad Mynediad: 27/02/2019).

⁵⁸ Rich, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism*, tt. 4-5.

⁵⁹ Jeffrey Herf, 'Anti-Semitism and Anti-Zionism in Historical Perspective: Convergence and Divergence', <<https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=CYXfAQAAQBAJ&oi=fnd&pg=PT6&dq=anti+zionism+&ots=bV-5QcORK8&sig=YvS-TAaVGMAatGnCSFDJ7tvMA5g#v=onepage&q=anti%20zionism&f=false>> (Dyddiad Mynediad: 19/02/2019).

⁶⁰ Rich, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism*, t.6.

o achosion roeddent yn gwrthwynebu Israel fel gwladwriaeth. Tyfodd gwrth-Seioniaeth adain chwith Prydain allan o rwydweithiau rhyngwladol ac mae'n parhau i gael effaith fyd-eang.⁶¹

Erbyn 2010, roedd gwrth-Seioniaeth adain chwith Prydain wedi datblygu o rwydweithiau rhyngwladol. Dadleuodd y Sefydliad Reut yn Israel, sefydliad a ymgwymerodd â phrosiect ymchwil fawr i weithredoedd gwleidyddol gwrth-Israelaidd, fod rôl Llundain fel canolfan cyfryngau rhyngwladol, academiaidd a diwylliant, yn ei gwneud yn ganolfan flaenllaw dros feirniadu Israel. Mae hyn yn ei gwneud yn 'brif ganolbwynt i ddirprwyo (o Israel) gyda dylanwad mawr ar y byd'. Ymhellach, honnodd Reut, 'Llundain yw prifddinas y syniad o Un-wladwriaeth - trafodir cysyniad yr Un-Wladwriaeth a'i ddatblygu yn Llundain mwy nag unrhyw le arall, a'i ledaenu ledled y byd'. Mae'r hyn sydd yn digwydd ym Mhrydain, ac ar y chwith Prydeinig, yn bwysig ymhell y tu hwnt i'w glannau.⁶²

4.4 Gwrth-Semitiaeth a Gwrth-Seioniaeth o fewn y Blaid Lafur

Mae gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth yn broblemau enfawr o fewn y Blaid Lafur, fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gwrth-Semitiaeth yn fwy amlwg yn y blaid na gwrth-Seioniaeth. Dros y tair blynedd diwethaf, cafwyd tystiolaeth o ffrwd o aelodau'r blaid, gweithredwyr a swyddogion sydd wedi gwneud sylwadau gwrth-Semitaidd neu, yn amlach na pheidio, sylwadau gwrth-Semitaidd ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r enghreifftiau hyn wedi dod o amrywiaeth eang o aelodau'r Blaid Lafur, mewn gwahanol rannau o'r wlad, yn ysgrifennu ar wahanol adegau ac mewn ymateb i wahanol ddigwyddiadau. Mae hyn wedi tyfu i fod yn gynrychiolaeth fodern o'r mathau o wrth-Semitiaeth a gwrth-Seioniaeth a ddatblygodd yn y sectorau Prydeinig a adawyd o'r 1960au ymlaen.⁶³ Ar y llaw arall, mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r rhan fwyaf o aelodau'r Blaid Lafur yn wrth-Semitaidd, ond nid oes angen iddynt fod ar gyfer trafodaeth fewnol y blaid am Iddewon, Israel, a gwrth-semitiaeth i ddod yn wenwynig.⁶⁴

Yn ystod gwanwyn 2016, daeth gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur yn broblem ym mhrif ffrwd trafodaethau gwleidyddol Prydain. Ym Mawrth 2018, cyfaddefodd Corbyn fod y Blaid

⁶¹ Jeffrey Herf, 'Anti-Semitism and Anti-Zionism in Historical Perspective: Convergence and Divergence', <<https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=CYXfAQAAQBAJ&oi=fnd&pg=PT6&dq=anti+zionism+&ots=bV-5QcORK8&sig=YvS-TAaVGMAatGnCSFDJ7tvMA5g#v=onepage&q=anti%20zionism&f=false>> (Dyddiad Mynediad: 19/02/2019).

⁶² Rich, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism*, tt.xx-xxi.

⁶³ Dave Rich, 'The Etiology of Antisemitism in Corbyn's Labour Party', <<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/23739770.2018.1560562>> (Dyddiad Mynediad: 15/04/2019).

⁶⁴ Dave Rich, 'The Etiology of Antisemitism in Corbyn's Labour Party', <<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/23739770.2018.1560562>> (Dyddiad Mynediad: 15/04/2019).

Lafur wedi bod yn wrth-Semitaidd. Roedd grwpiau Iddewig wedi cyhuddo arweinydd Llafur o beidio â gwneud digon i fynd i'r afael â hyn ac roeddent yn paratoi protestiadau yn ei erbyn. Mewn ymateb, ymddiheurodd arweinydd y Blaid Lafur mewn llythyr i arweinwyr Iddewig cyn y brotest, gan ddweud, 'Rwy'n cydnabod bod gwrth-Semitiaeth wedi ymddangos yn y Blaid Lafur... Mae hyn wedi achosi poen a niwed i aelodau Iddewig ein plaid ac i'r gymuned Iddewig ehangach ym Mhrydain ...'.⁶⁵

Yn ogystal yn 2016, roedd Aelodau Seneddol Llafur ac ymgyrchwyr yn cael eu harchwilio, yr oedd arweinydd y Blaid ei hun yn cael ei gyhuddo o fod yn gwrth-Seionydd (gyda hanes hir o gysylltiadau â syniadau gwrth-Semitaidd a gwleidyddiaeth), ac roedd y dadleuon yn cael sylw ar y papurau newydd, ar y radio, ac ar deledu, yn ogystal ag ar y cyfryngau cymdeithasol a flogiau.⁶⁶

4.4.1 Ken Livingstone

Cymeriad arwyddocaol yn y Blaid Lafur sydd bellach wedi cael ei atal am fod yn wrth-Seionaidd ac yn wrth-Semitaidd yw Ken Livingstone. Oherwydd gweithredoedd Livingstone, sef cyn Maer Llundain, bu'n rhaid iddo ddioddef canlyniadau difrifol gan y Blaid Lafur. Am bedwar degawd, roedd Ken Livingstone yn sosiaidd blaenllaw a llwyddiannus ym Mhrydain; cafodd ei edmygu'n fawr.⁶⁷ Hefyd mae Livingstone wedi bod yn rhan o'r mudiad gwrth-Seionaidd ers y dyddiau pan oedd yn glic bach, ymylol, obsesiynol ac eithriadol.⁶⁸

Mae'r iaith a ddefnyddir gan Livingstone yn wrth-Seionaidd ond gellid ei ystyried hefyd yn wrth-Semitaidd. Mae Livingstone yn symbol o lawer sydd yn perthyn i genhedlaeth 1968, sef gwleidyddion ar y chwith y mae iaith gwrth-Seionaidd yn gyffredin iddynt. Fel golygydd y *Labour Herald*, cyhoeddodd Livingstone gartŵn ym 1982 o Brif Weinidog Israel, Menachem Start, yn gwisgo gwisg Du yr SS, ac yn sefyll ar fynydd o benglog Arabaidd uwchben y slogan: 'Yr Ateb Terfynol? Shalom?'.⁶⁹ At hynny, bu canlyniadau difrifol i Livingstone yn dilyn ei honiad bod Hitler wedi cefnogi Seioniaeth, 'cyn iddo fynd yn wallgof... a lladd chwe miliwn o Iddewon'.⁷⁰

⁶⁵ BBC, 'Corbyn apologises for "hurt" caused by anti-Semitism in Labour', <<https://www.bbc.co.uk/news/uk-43536830>> (Dyddiad Mynediad: 12/02/2019).

⁶⁶ David Hirsh, *Contemporary Left Antisemitism* (Llundain: Routledge, 2017), t.17.

⁶⁷ Hirsh, *Contemporary left Antisemitism*, t.12.

⁶⁸ Hirsh, *Contemporary Left Antisemitism*, t.15.

⁶⁹ Macshane, *Globalising Hatred: The New Antisemitism*, t.25.

⁷⁰ Hirsh, *Contemporary Left Antisemitism*, t.14.

Yn 2016, ataliwyd Ken Livingstone o'r Blaid Lafur yn dilyn ei sylwadau am Adolf Hitler. I ddechrau, ataliwyd Livingstone o'r Blaid Lafur am flwyddyn, ond wedyn estynnodd Llafur waharddiad Livingstone ynghylch y sylwadau gwrth-Semitaidd hyn. Dywed Jonathan Arkush o ganlyniad: 'most people in the Jewish community can't trust Labour'.⁷¹ Yn dilyn ataliad Livingstone, ym Mai 2018 ymddiswyddodd o'r Blaid Lafur yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, gwrthododd Livingstone y cyhuddiad ei fod yn euog o wrth-Semitiaeth dros ei sylwadau am Hitler a Seioniaeth. Mae Livingstone bob amser wedi dal at y sylwadau hynny am yr arweinydd Natsiaidd yn cefnogi mamwlad Iddewig pan ddaeth i rym gyntaf. Nododd Maer Llundain Sadiq Khar ar drydar, 'Let's hope this draws a line under this issue and Labour will continue to focus relentlessly on making sure there is no place in our party for anyone with anti-Semitic views'.⁷²

Ond ar y llaw arall, mae rhai yn anghytuno bod Livingstone yn wrth-Semitaidd. Nodir Reg Freeson, nad oedd yn ystyried bod cyn Maer Llundain yn 'gwrth-Semitaidd' wrth iddo gefnogi'r gwyliau Iddewig ac nad oedd byth yn brin o ieuenctid Iddewig ymhlith ei gefnogwyr.⁷³

4.4.2 Jeremy Corbyn

Cafwyd llawer o gyhuddiadau yn erbyn Corbyn ei fod yn coleddu syniadau gwrth-Semitaidd a bod yn wrth-Seionaidd. Mae yna dystiolaeth glir bod Corbyn yn wrth-Seionydd ac yn cefnogi Palesteina, ond ar y llaw arall, nid yw mor glir a yw Corbyn yn wrth-Semitaidd. Ar ben hynny, mae'r dirywiad yn y berthynas rhwng y Blaid Lafur a chymuned Iddewig Prydain wedi gwaethygu ers etholiad Corbyn fel arweinydd y Blaid Lafur.⁷⁴

Mae gan Corbyn hanes hir o gefnogi gwrth-Seioniaeth. Er bod y ddau Brif Weinidog Lafur diwethaf, sef Tony Blair a Gordon Brown, yn noddwyr y Gronfa Genedlaethol Iddewig, mae Corbyn yn noddi Ymgyrch Cefnogi Palesteina.⁷⁵ Pan ddaeth yn Aelod Seneddol ym 1983, roedd eisoes yn noddwr i grŵp bach o'r enw, 'Labour Movement Campaign for Palestine,' a addawodd 'ddileu Seioniaeth' gan y Blaid Lafur. Ymgyrchodd hefyd i Lafur dorri cysylltiadau â'i chwaer barti Israel lle galwodd am un wladwriaeth seciwlar, ddemocrataidd o Balesteina i

⁷¹ The Times of Israel, 'UK Labour extends Ken Livingstone suspension for saying Hitler supported Zionism', <<https://www.timesofisrael.com/uk-labour-extend-ken-livingstone-suspension-for-saying-hitler-supported-zionism/>> (Dyddiad Mynediad: 12/02/2019).

⁷² Lee Harpin, 'Ken Livingstone resigns from Labour Party', <<https://www.thejc.com/news/uk-news/ken-livingstone-resigns-from-labour-party-1.464413>> (Dyddiad Mynediad: 12/02/2019).

⁷³ Macshane, *Globalising Hatred: The New Antisemitism*, t.26.

⁷⁴ Rich, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism*, t.xvi.

⁷⁵ Rich, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism*, t.xvii.

ddisodli Israel.⁷⁶ Hefyd, daeth Corbyn yn ymgyrchydd amlwg ar ran yr achos Palesteinaidd yn un o'r grwpiau gwrth-Israel newydd a ddaeth i'r amlwg ar y chwith. Gwnaethant hynny trwy groesawu sefydliad a oedd yn hyrwyddo sefyllfa gwbl wrth-Seionaidd, un oedd yn gwadu bodolaeth Israel ac wedi ymgyrchu i 'ddileu Seioniaeth'.⁷⁷ Felly, nid oes amheuaeth bod Corbyn yn wrth-Seionydd ac yn llwyr yn cefnogi gwladwriaeth Palesteinaidd yn hytrach na Wladwriaeth Israel.

Ar y llaw arall, mae'r cwestiwn a yw Corbyn yn wrth-Semitaidd yn llawer mwy cymhleth. Mae'n amlwg bod Corbyn wedi cael llawer o gysylltiadau â chymdeithion sydd yn gwrth-Semitaidd. Cafwyd cyhuddiadau bod gan Corbyn gysylltiad â'r ymgyrch o'r enw *Deir Yassin Remembered*, a gafodd ei redeg gan Paul Eisen, dyn a ddaeth allan yn gyhoeddus fel gwadwr yr Holocaust. Ar yr 14eg o Awst 2015, cymerodd y *Jewish Chronicle* y cyfle i ofyn Corbyn ynghylch yr honiadau a wnaed yn ei erbyn. Dywedodd Eisen fod Corbyn wedi rhoi ariannu i'r ymgyrch ac wedi bod yn gefnogol i'r ymgyrch.⁷⁸ Fodd bynnag, pan holwyd Corbyn am hyn, nid oedd ei atebion i'r *Jewish Chronicle* yn eu hargyhoeddedig. Dywedodd na allai gofio rhoi arian i Eisen. Dywedodd ei fod wedi cefnogi ymgyrch Eisen yn unig gyn iddi ddod yn amlwg bod Eisen yn wrth-Semitaidd, ond gwnaeth lawer o bobl eraill yr un peth. Mewn gwirionedd, roedd Corbyn yn dal i fynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliad Eisen cyn diwedd 2013.⁷⁹ Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw Corbyn yn gwrth-Semitaidd, gan ei fod nid yn unig wedi bod yn gyfaill i Eisen ond ei fod yn cael ei gyhuddo o roi arian i'w achos.

Yn ogystal, mae nifer wedi cyhuddo Corbyn o beidio â chymryd gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur o ddifri. Arweiniodd hyn at yr Ymholiad Chakrabarti ym Mis Mehefin 2018, gan Shami Chakrabarti. Pwrpas yr ymholiad oedd ymchwilio'r honiadau o wrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur. Fodd bynnag, bu rhywfaint o feirniadaeth o'r ymchwiliad. Yn ôl Richard Gold, 'In order for this enquiry to have any effect it needs to press Corbyn on the above. Corbyn has shown no remorse, he has never apologised for supporting people who want to kill Jews (not just Israeli Jews)... So far his reaction to the problem of antisemitism in the party has been very poor'.⁸⁰

⁷⁶ Rich, 'The Etiology of Antisemitism in Corbyn's Labour Party', <<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/23739770.2018.1560562>> (Dyddiad Mynediad: 15/04/2019).

⁷⁷ Rich, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism*, t.142.

⁷⁸ Hirsh, *Contemporary Left Antisemitism*, t.42.

⁷⁹ Hirsh, *Contemporary Left Antisemitism*, t.44.

⁸⁰ Hirsh, *Contemporary Left Antisemitism*, t.90.

Hyd yn oed heddiw, mae llawer wedi cyhuddo Corbyn o beidio â gwneud digon i fynd i'r afael â gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid. Felly mae'n hanfodol gofyn y cwestiwn: a yw hyn yn gynrychiolaeth o wrth-Semitiaeth Corbyn?

At hynny, mae yna dystiolaeth bod Corbyn yn bendant yn gwrth-Seionaidd ac yn cefnogi gwrth-Seioniaeth yn llwyr. Ar y llaw arall, mae'r dystiolaeth bod Corbyn yn wrth-Semitaidd yn gymhleth. Gellid ystyried Corbyn yn wrth-Semitaidd; trwy fod yn arweinydd Plaid sydd yn derbyn mwy o gyhuddiadau eu bod yn wrth-Semitaidd, yn ogystal â Corbyn yn rhoi arian i achos sydd yn gysylltiedig â gwadwr yr Holocaust. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth gadarn bod Corbyn wedi bod yn wrth-Semitaidd ei hun.

4.5 Ymosodiadau gwrth-Semitaidd a gwrth-Seionaidd ar Aelodau Seneddol Llafur

Mae Aelodau Seneddol Llafur hefyd wedi profi ymosodiadau gwrth-Semitaidd a gwrth-Seionaidd. Mae hyn yn pwysleisio nad yw pob Aelod Seneddol Llafur yn wrth-Semitaidd gan fod rhai yn Iddewon eu hunain. Amlygir hyn gan achosion Reg Freeson ac Oona King.

Yn yr 1980au, defnyddiodd llawer ar yr adain chwith ym Mhrydain iaith a ystyriodd yr Aelod Seneddol Reg Freeson fel iaith gwrth-Semitaidd. Roedd Freeson yn olygydd cyntaf y cyfnodolyn gwrth-ffasgaidd *Searchlight*. Gwnaeth hyn ef yn darged ar gyfer ymosodiadau gwrth-Semitaidd yn y 1960au. O ganlyniad i hyn, roedd pen mochyn wedi'i hoelio at ei ddrws ffrynt a chynhyrchwyd poster hiliol gyda'r geiriau wedi'u ffurfio o sleisiau o facwn. Dywedodd hefyd ei fod yn cael ei ddisgrifio yn aml mewn papurau adain chwith fel yr 'Aelod Seneddol Seionaidd Reg Freeson.' Ychwanegodd, 'Defnyddiwyd y term hwn 'Seionydd' hyd yn oed pan nad oedd gan yr erthygl ddim i'w wneud gydag Israel neu Seioniaeth... Fe es i un cyfarfod o'r Blaid Lafur, lle dywedodd aelod: 'Rydych chi'n Iddew, onid ydych chi?'⁸¹

Enghraifft arall o ragfarn yn erbyn Aelodau Seneddol Llafur Iddewig yw achos Oona King, a hynny oherwydd bod ei mam yn Iddew. Ymosodwyd arni fel Iddew pan amddiffynnodd ei sedd yn ne ddwyrain Llundain yn erbyn y Parti 'Respect' yn 2005. Mae'r ffaith bod ei mam yn Iddew wedi peri iddi wynebu sylwadau sarhaus fel, 'Get out of here, Jewish bitch', a'i gwrthwynebwyr gwleidyddol yn ceisio ei diffinio trwy ledaenu sibrydion drwg amdani. Dywedodd King yn ei dyddiadur, 'Maent yn nodi fy mod i'n Iddewig, ac mae yna gynllwyn Iddewig a rhaid imi fod yn rhan ohoni'.⁸²

⁸¹ Macshane, *Globalising Hatred: The New Antisemitism*, tt.22-23.

⁸² Macshane, *Globalising Hatred: The New Antisemitism*, t.23.

4.6 Nad yw'r Blaid Llafur yn wrth-Semitaidd nac yn wrth-Seionaidd

Nid yw pawb yn cytuno bod y Blaid Lafur yn wrth-Semitaidd ac yn gwrth-Seionaidd. Ym mis Mai 2016, dywedodd Len McCluskey, arweinydd *Unite*, yr undeb mwyaf ym Mhrydain mewn ymateb i'r sgandal: 'Nid yw'r cyhuddiad o wrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur yn ddim mwy nag 'ymgais sinigaidd' i herio arweinyddiaeth Jeremy Corbyn'.⁸³ Yn ychwanegol, ar wefan y Blaid Lafur, mae'n nodi ei bod parti gwrth-hiliol, wedi ymrwymo i ymladd ac ymgyrchu yn erbyn pob math o hiliaeth, gan gynnwys gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia. Ni fydd Llafur yn goddef hiliaeth mewn unrhyw ffurf y tu mewn neu'r tu allan i'r blaid. Bydd y Blaid Lafur, meddai, yn sicrhau bod y blaid yn gartref croesawgar i aelodau o bob cymuned, heb le i unrhyw ragfarn na gwahaniaethu ar sail ar hil, ethnigrwydd neu grefydd.⁸⁴

4.7 Casgliad y Bennod

Gan edrych ar wrth-Semitiaeth a gwrth-Seioniaeth o fewn y Blaid Lafur yn benodol, mae'n amlwg bod agweddau o'r ddau yn ymddangos. Mae'n hefyd yn glir, nid ydynt yn ideolegau newydd o fewn y Blaid Lafur, ac maent wedi dod fwy i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafodd llawer o aelodau Llafur eu cyhuddo o fod yn wrth-Semitaidd ac yn gwrth-Seionaidd, o Livingstone i Corbyn. Ond mae'n bwysig i nodi nid yw holl aelodau'r Blaid Lafur yn wrth-Semitaidd ac yn wrth-Seionaidd. Bu digwyddiadau lle mae nifer wedi bod yn gwrth-Semitaidd ac yn gwrth-Seionaidd tuag at aelodau Iddewig y Blaid Llafur eu hunain. Felly mae'n amhosibl cyhuddo'r Blaid Lafur cyfan o fod yn wrth-Semitaidd a gwrth-Seionaidd, ond mae'n amlwg bod nifer o Aelodau Seneddol wedi mabwysiadu'r agweddau hyn.

⁸³ Hirsh, *Contemporary Left Antisemitism*, t. 68.

⁸⁴ Labour, 'Antisemitism and other forms of racism', <<https://labour.org.uk/members/my-welfare/my-rights-and-responsibilities/coc-antisemitism-and-other-racism/>> (Dyddiad Mynediad: 19/02/2019).

Pennod 5

Casgliad

Mae'n sicr bod gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth yn elfennau arwyddocaol yn ein cymdeithas a gwleidyddiaeth heddiw. Ond mae'n bwysig nodi bod y mater yma yn parhau i fod yn un broblemus, nid yn unig ym Mhrydain ond yn y byd ehangach. Er nad oes un casgliad pendant, rwyf wedi archwilio agweddau gwahanol o wrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth ac wedi dod i'r casgliad canlynol. Trwy gydol y traethawd hir yma, nodwyd ar lawer o adegau bod y perthynas rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth yn un amheus.

Yn gyntaf, mae'n amlwg bod y diffiniad o wrth-Seioniaeth yn syml: y gwrthwynebiad i Seioniaeth yn llwyr. Ar y llaw arall, mae ceisio diffinio a deall ystyr beth yn union yw gwrth-Semitiaeth yn gymhleth iawn. Ceir nifer o ddehongliadau gwahanol o beth mae gwrth-Semitiaeth yn ei olygu heddiw ac nad oes un diffiniad pendant, sydd yn profi i fod yn hynod o anodd yn y drafodaeth. Mae nifer wahanol o ddehongliadau o'r hyn mae'n ei olygu yn ogystal â gwahanol fathau o wrth-Semitiaeth fel y nodwyd gan Ben Cohen. Wrth ymchwilio ar y mater, mewn gwirionedd, credaf mai Sonja Weinburg a ddarparodd y diffiniad mwyaf addas o'r hyn y mae gwrth-Semitiaeth yn ei olygu. Fodd bynnag mae'n dibynnu ar yr unigolyn a sut maent yn ei ddehongli gan nad oes un diffiniad pendant.

Mae hyn yn arwain at y ddadl ynglŷn â'r berthynas rhwng gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth. Gan nad oes un diffiniad pendant o beth yw gwrth-Semitiaeth, mae'n ei gwneud yn anodd deall y berthynas rhyngddynt sydd yn afwrwydd. Y ddadl gyntaf a drafodwyd, yw bod pobl yn gallu bod yn gwrth-Semitaidd ar sail gwrth-Seioniaeth. Gall pobl fod mor angerddol am eu credoau o wrth-Seioniaeth lle yn ddiweddarach y gallant ddod yn wrth-Semitaidd. Serch hynny, gall gwrth-Semitiaeth sefyll ar ei ben ei hun heb agweddau gwrth-Seioniaeth; gallai un bod yn wrth-Semitaidd heb ddefnyddio gwrth-Seioniaeth fel eu rheswm. Ymhellach, gellir dadlau mae gwrth-Seioniaeth yw'r wrth-Semitiaeth newydd. Mae'r ffaith bod pobl yn trin ac yn defnyddio gwrth-Seioniaeth i guddio eu gwrth-Semitiaeth yn dangos difrifoldeb y broblem hyd yn oed heddiw. Ar y cyfan, o safbwynt hanesyddol nid yw gwrth-Seioniaeth yr yn fath a gwrth-Semitiaeth, ond gwelwn rhai cysylltiadau rhyngddynt. Mae'n amlwg y gall gwrth-Semitiaeth sefyll ar ei ben ei hun rhag gwrth-Seioniaeth, ond gwelwn fod gwrth-Seioniaeth yn gallu dylanwadu ar bobl i dangos agweddau gwrth-Semitaidd.

Ar ben hynny, mae'n amlwg bod rhai agweddau o wrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur, sydd wedi dod yn bwnc o drafodaeth yn ystod y misoedd ac yn yr wythnosau diwethaf. Mae'n amlwg nad yw'r cysyniadau o wrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth yn newydd o fewn y Blaid Lafur. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig nodi nad yw pob Aelod Seneddol yn wrth-Semitaidd nac yn gwrth-Seionaidd; nid yw'n adlewyrchiad llwyr o'r Blaid Lafur cyfan. Roedd Reg Freeson ac Oona King, aelodau o'r Blaid Lafur wedi wynebu gwrth-Seioniaeth a gwrth-Semitiaeth eu hunain oherwydd eu cefndir Iddewig. Mae hyn yn tystiolaeth fod hyn yn broblem ehangach o fewn ein gwleidyddiaeth.

Er nad yw gwrth-Seioniaeth mor amlwg yn y Blaid Lafur, mae Jeremy Corbyn yn sicr yn gwrth-Seionaidd. Ymhellach, mae Aelodau Seneddol megis Ken Livingstone yn dangos maint y broblem o wrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur ac ein gwleidyddiaeth yn yr unfed ganrif ar hugain. Er bod yr Ymholiad Chakrabarti wedi ceisio datrys problem gwrth-Semitiaeth o fewn y Blaid Lafur, mae'n amlwg bod y mater yn parhaus. Wrth i ni gofio am y digwyddiadau erchyll yr ugeinfed ganrif a sut y llofruddiwyd chwe miliwn o Iddewon o dan yr arweiniad gwleidyddol y Natsiaid, mae'n frawychus sut mae'r broblem o wrth-Semitiaeth dal yn cael ei wynebu heddiw, er bod nifer yn meddwl fod gwrth-Semitiaeth yn rhywbeth o'r gorffennol.

Ar y cyfan, mae materion trwy gydol y traethawd hir yma yn barhaus ac mae angen ei archwilio ymhellach. Ond mae'r traethawd hir yma wedi ceisio cymryd cam ymlaen wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Er nad oes un casgliad penodol, mae dal cwestiynau i'w gofyn, megis: sut bydd y broblem o wrth-Semitiaeth yn cael ei datrys a beth sydd yn cael ei wneud i'w oresgyn? Mae goddefgarwch gwrth-Semitiaeth yn annerbyniol a ni ddylai digwydd o gwbl. Gobeithio yn y dyfodol gallwn gweld newidiadau tuag at yr agweddau o wrth-Semitiaeth, ac bydd yn fater o'r gorffennol.

Llyfryddiaeth

BBC Newsnight, 'Lord Jonathan Sacks: "Anti-Zionism is the new anti-Semitism"',
<<https://www.youtube.com/watch?v=Ww4S4a3-J4c>> (Dyddiad Mynediad: 25/02/2019).

BBC, 'Corbyn apologises for 'hurt' caused by anti-Semitism in Labour'
<<https://www.bbc.co.uk/news/uk-43536830>> (Dyddiad Mynediad: 12/02/2019).

Beller, Steven, *Anti-Semitism: A Very Short Introduction* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 2015).

Brashler, James, 'God's Covenant with Abraham', (Presbyterian Outlook; Richmond, Medi 4, 2017) Cyfrol. 199, rhif. 12, t.41, <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/1939740755/fulltextPDF/FF0390A2AC8A4855PQ/1?accountid=130472>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

Bytwerk, Randall, *Julius Streicher: Nazi Editor of the Notorious Anti-Semitic Newspaper Der Stürmer* (Efrog Newydd: Cooper Square Publishers, 2010).

Cohen, Jeremy, *Christ Killers: The Jews and the Passion from the Bible to the Big Screen* (Rhydychen: Oxford University Press, 2007).

Dowty, Alan, *The Jewish State: A Century Later, Updated With a New Preface* (California: University of California Press; Argraffiad cyntaf, 2001).

Eisen, Robert, *The Peace and Violence of Judaism: From the Bible to Modern Zionism* (Rhydychen: Oxford University Press, 2011).

Feldman, David, 'Anti-Zionism and Antisemitism in Britain',
<https://www.jmberlin.de/sites/default/files/antisemitism-in-europe-today_9-feldman.pdf>
(Dyddiad Mynediad: 01/02/2019).

Friedman, Isaiah, 'Herzl, Theodor', (*Encyclopaedia Judaica*. Ed. Michael Berenbaum a Fred Skolnik. Cyfrol 9. Argraffiad ail. Detroit, MI: Macmillan Reference USA, 2007),
<<http://go.galegroup.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ps/i.do?p=GVRL&u=walamp&id=GALE|CX2587508864&v=2.1&it=r&sid=exlibris>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

Friedman, Shuki, 'Anti-Zionism is a dangerous form of anti-Semitism',
<<https://blogs.timesofisrael.com/anti-zionism-is-a-dangerous-form-of-anti-semitism/>>
(Dyddiad Mynediad: 25/02/2019).

Harpin, Lee, 'Ken Livingstone resigns from Labour Party', <<https://www.thejc.com/news/uk-news/ken-livingstone-resigns-from-labour-party-1.464413>> (Dyddiad Mynediad: 12/02/2019).

Hellig, Jocelyn, *A Short History: The Holocaust and Antisemitism* (Llundain: Oneworld Publications, 2003).

Herf, Jeffrey, *Anti-Semitism and Anti-Zionism in Historical Perspective: Convergence and Divergence* (Lloegr: Routledge, 2007)
<<https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=CYXfAQAAQBAJ&oi=fnd&pg=PT6&dq=anti+zionism+&ots=bV-5QcORK8&sig=YvS->

TAAVGMAatGnCSFDJ7tvMA5g#v=onepage&q=anti%20zionism&f=false> (Dyddiad Mynediad: 25/02/2019).

Hirsh, David, 'Anti-Zionism and Antisemitism: Cosmopolitan Reflections', <<http://research.gold.ac.uk/2061/>>, (Dyddiad Mynediad: 25/01/2019).

Hirsh, David, *Contemporary Left Antisemitism* (Llundain: Routledge, 2017).

Hitler, Adolf, *Mein Kampf* (Budapest: Centrum Kiadóvállalat, 1937).

International Holocaust Memorial Alliance, 'Working Definition of Antisemitism', <<https://www.holocaustremembrance.com/working-definition-antisemitism>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

Isseroff, Ami, 'A brief history of Jewish anti-Zionism (Jews Against Zionism)', <http://www.zionism-israel.com/his/jewish_anti_zionism.htm> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

Jeffrey Herf, 'Anti-Semitism and Anti-Zionism in Historical Perspective: Convergence and Divergence', <<https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=CYXfAQAAQBAJ&oi=fnd&pg=PT6&q=anti+zionism+&ots=bV-5QcORK8&sig=YvS-TAAVGMAatGnCSFDJ7tvMA5g#v=onepage&q=anti%20zionism&f=false>> (Dyddiad Mynediad: 19/02/2019).

Jones, Gareth Lloyd, *Lleisiau o'r Llundw* (Dinbych: Gwasg Gee, 1994).

Labour, 'Antisemitism and other forms of racism', <<https://labour.org.uk/members/my-welfare/my-rights-and-responsibilities/coc-antisemitism-and-other-racism/>> (Dyddiad Mynediad: 19/02/2019).

Langmuir, Gavin I., *Toward a Definition of Antisemitism* (California: University of California Press, 1996).

Liebman, Charles Seymour, Shokeid, Moshe, Å elomo A. DeÅ;en, *Israeli Judaism: The Sociology of Religion in Israel* (Jersi Newydd: Transaction Publishers, 1995).

Macshane, Denis, *Globalising Hatred: The New Antisemitism* (Llundain: Weidenfeld & Nicolson, 2009).

Marqusee, Mike, *If I Am Not For Myself: Journey of an Anti-Zionist Jew* (Llundain: Verso, 2010).

Matas, David, *Aftershock: Anti-Zionism & Anti-Semitism* (Canada: Dundurn Publishing, 2005).

Prior, Michael, *Zionism and the State of Israel* (Llundain: Routledge, 1999).

Rich, Dave, *The Left's Jewish Problem: Jeremy Corbyn, Israel and Anti-Semitism* (Llundain: Biteback Publishing Ltd, 2016).

Rich, Dave, 'The Etiology of Antisemitism in Corbyn's Labour Party', <<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/23739770.2018.1560562>> (Dyddiad Mynediad: 15/04/2019).

Rosen, David, 'The Relationship of the Jewish People to the Land of Israel',
<<https://webcache.googleusercontent.com/search?q=cache:GNbby-u6xpIJ:https://www.rabbidavidrosen.net/Articles/Israel/Relationship%2520of%2520the%2520Jewish%2520People%2520to%2520the%2520Land%2520of%2520Israel%2520edited%2520Jan%252003.doc+&cd=15&hl=en&ct=clnk&gl=uk>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

<http://go.galegroup.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ps/advancedSearch.do?method=doSearch&searchType=AdvancedSearchForm&userGroupName=walamp&inputFieldNames%5b0%5d=AU&prodId=GVRL&inputFieldValues%5b0%5d=%22Haim+Hillel+Ben-Sasson%22> Haim, Hillel, Slutsky, Yehuda., a Porat, Dina, 'Blood Libel', (Encyclopaedia Judaica. Ed. Michael Berenbaum and Fred Skolnik. Cyfrol 3, Argraffiad Ail. Detroit, MI: Macmillan Reference USA, 2007)
<<http://go.galegroup.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ps/i.do?p=GVRL&u=walamp&id=GALE|CX2587503147&v=2.1&it=r&sid=exlibris>> (Dyddiad Mynediad: 22/11/2018).

Schlesinger, Hanan, 'Anti-Zionism = Antisemitism? Not Necessarily!',
<<https://www.myjewishlearning.com/rabbis-without-borders/anti-zionism-antisemitism-not-necessarily/>> (Dyddiad Mynediad: 5/2/2019).

The Associated Press a Haaretz, 'Seven Labour Party Lawmakers Quit Over "Institutional anti-Semitism"', <<https://www.haaretz.com/world-news/europe/biggest-split-in-labour-party-s-history-over-institutional-anti-semitism-1.6942380>> (Dyddiad Mynediad: 27/02/2019).

The Times of Israel, 'UK Labour extends Ken Livingstone suspension for saying Hitler supported Zionism', <<https://www.timesofisrael.com/uk-labour-extend-ken-livingstone-suspension-for-saying-hitler-supported-zionism/>> (Dyddiad Mynediad: 12/02/2019).

Vital, David, *The Origins of Zionism* (Rhydychen: Clarendon Press, 1990).

Weinberg, Sonja, *Pogroms and Riots: German Press Responses to Anti-Jewish Violence in Germany* (Frankfurt: Peter Lang AG, 2010).

Weisfeld, Hannah, 'The Labour anti-Semitism row has thrust British Jewish Identity into the public domain, but its complexity is often lost',
<<https://blogs.lse.ac.uk/religionglobalsociety/2016/08/the-labour-anti-semitism-row-has-thrust-british-jewish-identity-into-the-public-domain-but-its-complexity-is-often-lost-2/>> (Dyddiad Mynediad: 19/02/2019).

Wistrich, Robert S., *Anti-Zionism and Antisemitism in the Contemporary World* (Llundain: The Macmillan Press LTD, 1990).

Wistrich, Robert, 'Anti-Zionism and Anti-Semitism',
<https://www.jstor.org/stable/25834602?read-now=1&seq=5#page_scan_tab_contents> (Dyddiad Mynediad: 25/02/2019).

Wright, Christopher J. H., *God's People in God's Land: Family, Land, and Property in the Old Testament* (UDA: William B Eerdmans Publishing Co, 2014).